Mae wedi dod i'r amlwg mai dim ond chwyddiad 35x a ddefnyddiodd y GIG ar brofion PCR cyn y pandemig honedig. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r GIG yn defnyddio chwyddiad 45x ac mae nifer y canlyniadau positif anghywir yn cynyddu'n ddramatig. Mae hyn yn holol hurt! Nid yw'r PCR yn profi am goronafeirws newydd – mae'n profi am archwys cellol mewndarddol y sawl sy'n cael y prawf! Gronynnau RNA. Mae'n bryd dod â'r achos-demig i ben a rhoi'r gorau i swabio rt-PCR nawr!

### Gwybodaeth Ychwanegol

Ar chwyddiant o 45x mae'n amlwg i'r rheini sy'n cynnal gwaith ymchwil annibynnol ac sydd â chefndir academaidd ym maes gwyddoniaeth bod y prawf PCR yn cael ei ddefnyddio i beri ofn a chreu penawdau trawiadol.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru

# Profion ar gyfer COVID-19 drwy ddefnyddio'r prawf rt-PCR

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14687-2

Rhif y ddeiseb: P-05-1062

Teitl y ddeiseb: Rhoi'r gorau i'r prawf rt-PCR i brofi ar gyfer COVID-19, gan nad yw'n addas i'r diben

Geiriad y ddeiseb: Mae wedi dod i'r amlwg mai dim ond chwyddiad 35x a ddefnyddiodd y GIG ar brofion PCR cyn y pandemig honedig. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r GIG yn defnyddio chwyddiad 45x ac mae nifer y canlyniadau positif anghywir yn cynyddu'n ddramatig. Mae hyn yn hollo hurt! Nid yw'r PCR yn profi am goronafeirws newydd – mae'n profi am archwys cellol mewndaraddol y sawl sy'n cael y prawf gronynnau RNA. Mae'n bryd dod â'r achos-demig i ben a rhoi'r gorau i swabio rt-PCR nawr.

Ar chwyddiant o 45x mae'n amlwg i'r rheini sy'n cynnal gwaith ymchwil annibynnol ac sydd â chefndir academiaidd ym maes gwyddoniaeth bod y prawf PCR yn cael ei ddefnyddio i beri ofn a chreu penawdau trawiadol.



## 1. Cefndir

### Strategaeth profi Covid-19

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun cenedlaethol cyntaf ar gyfer profion COVID-19 ar 28 Mawrth 2020. Roedd cam cychwynnol y profion ar gyfer COVID-19 yn canolbwytio ar weithwyr hanfodol, a chleifion symptomatig mewn ysbytai a chartrefi gofal. Ers 18 Mai 2020, gellir rhoi prawf i unrhyw un yng Nghymru sydd â symptomau coronafeirws. Y prif brawf a ddefnyddiwyd yng Nghymru a'r DU ar ddechrau pandemig COVID-19 oedd prawf antigenau, ar ffurf y prawf adwaith cadwynol polymerasau trawsgrifiad gwrthdro (RT-PCR).

Cyhoeddwyd Strategaeth Profi COVID-19 Llywodraeth Cymru ar 15 Gorffennaf 2020, a'i ddiweddu ar 23 Gorffennaf 2020. Ailadroddodd hyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r prawf RT-PCR, gan nodi'r canlynol:

Ar hyn o bryd, mae gennym ddua fath gwahanol o brofi yng Nghymru:

- Prawf RT-PCR (canfod feirws), sy'n canfod presenoldeb RNA feirysol. Fel arfer, caiff y prawf ei wneud gan ddefnyddio swab trwynol a gymerir o'r trwyn neu o gefn y gwddf. Gall y math hwn o brawf amlygu ydy'r haint ar rywun ar hyn o bryd;
- Prawf gwrthgyrff, sy'n canfod ymateb gwrthgyrff i'r feirws SARS-CoV-2, ac sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i benderfynu a yw'r person wedi'i heintio eisoes. Ar hyn o bryd, mae'r defnydd a wneir o'r profion yn canolbwytio ar serowyliadwriaeth o garfannau targed diffiniedig, a hynny er mwyn deall lefel gronnol yr haint hanesyddol.

Ar hyn o bryd, y profion RT-PCR ar gyfer canfod feirws yw'r prif brawf rheng flaen ar gyfer rhoi diagnosis bod rhywun wedi'i heintio â'r feirws SARS-CoV-2.

Yn ystod mis Tachwedd 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ddwy raglen profi torfol, ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon isaf. Roedd profion yn y rhaglenni hyn yn defnyddio Dyfeisiau Llif Unffordd sy'n gallu rhoi canlyniadau o fewn tua 30 munud. Os bydd unigolyn yn profi'n positif drwy brawf Dyfeisiau Llif Unffordd, gofynnir iddo hunanynysu ar unwaith a chynigir prawf swabio RT-PCR traddodiadol iddo.

## Tystiolaeth ar y prawf RT-PCR

Mae'r egwyddorion craidd a'r argymhellion i helpu i ddefnyddio'r prawf RT-PCR yng Nghymru wedi'u darparu gan Gell Cyngor Technegol (TAC) Llywodraeth Cymru, a nodir yn ei hadroddiad, sef Egwyddorion craidd ar gyfer defnyddio profion RT-PCR i ganfod SARS-CoV-2. Mae hyn yn nodi bod y prawf RT-PCR:

... yn broses ensymatig a chemegol lle y caiff edafedd byr o asid riboniwclëig (RNA) eu trawsnewid yn asid diocsiriboniwclëig (DNA) a'u hatgynhyrchu mewn adwaith amser dyblu (mwyhau) yn grynnodiadau y gellir eu canfod a'u gweld gan y llygad ddynol.

Mae adroddiad y TAC hefyd yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r prawf RT-PCR:

Mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio ers dros ddau ddegawd i ganfod feirysau sydd â genom RNA mewn amrywiaeth o samplau clinigol, ac yn fwyaf diweddar, hwn yw'r prif ddull o gadarnhau presenoldeb SARS-CoV-2, sef y feirws sy'n achosi COVID-19, mewn achosion a amheuir yn ystod y pandemig.

Mae lechyd Cyhoeddus Lloegr wedi datgan mai profion diagnostig molecwlaidd, megis profion PCR amser real, yw'r dulliau safon aur ar gyfer nodi unigolion sydd â haint feirysol gweithredol, megis SARS-CoV-2 (sy'n achosi clefyd COVID-19), yn eu pibellau anadlu.

Cadarnhaodd adroddiad TAC ar y prawf RT-PCR (t.11) fod nifer o lwyfannau (yn cynrychioli cyfarpar gan weithgynhyrchwyr gwahanol) yn cael eu defnyddio gan lechyd Cyhoeddus Cymru i ategu'r gyfundrefn brofi. O ran nifer y cylchoedd mwyhau a geir yn y profion RT-PCR, mae ymatebion lechyd Cyhoeddus Cymru i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (Rhyddid Gwybodaeth 451 a Rhyddid Gwybodaeth 461) yn nodi'r canlynol:

The real-time PCR assays in use in Wales for COVID-19 diagnostics all run for 45 cycles however, the cycle number where the sample is defined as RNA NOT DETECTED varies by platform and target gene detected by the system. This is defined by the manufacturer.

Hefyd, nododd y fersiwn wedi'i diweddu o Strategaeth Profi COVID-19 Llywodraeth Cymru:

- Y dylid ystyried defnyddioldeb profion RT-PCR ychwanegol yng nghyd-destun ehangach y profion sy'n cael eu cynnal, gan gynnwys y rhaglen 'Profi, Olrhain, Diogelu';
- Mae perfformiad y RT-PCR ar ei orau pan dargedir ei ddefnydd, er enghraifft, pan gaiff ei ddefnyddio i gefnogi diagnosis mewn unigolion â symptomau.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginaethau a Chynhyrchion Gofal lechyd wedi cyhoeddi canllawiau manwl ar gyfer gweithgynhyrchwyr profion ar ffurf Evidence standards framework for SARS-CoV-2 and anti-SARS-CoV-2 antibody diagnostic tests. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r dulliau gorau o werthuso perfformiad profion a'r isafswm safonau cyfeirio i'w defnyddio, yn ogystal â gwybodaeth fanylach am yr isafswm lefelau ar gyfer sensitfrwydd a phenodoldeb profion yn ôl y cyd-destun y maent i'w ddefnyddio ynddo.

Gall profion PCR roi canlyniadau positif ffug a rhai negatif ffug. Mae'r Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg wedi cyhoeddi gwaith ynghylch dehongli cywirdeb profion COVID-19 (Medi 2020) sy'n nodi'r canlynol:

- No diagnostic or antibody test is 100% accurate. This results in both false positive and false negative results;
- Most tests that detect SARS-CoV-2 infections are benchmarked against the testing type that is seen as the most accurate available so far. This is the RT-PCR test.

Atseini'r y farn hon gan bapur a luniwyd ym mis Mehefin ar gyfer Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfryngau (SAGE) Llywodraeth y DU.

Mae'r tabl cryno o'r protocolau sydd ar gael gan Sefydliad lechyd y Byd (WHO) yn cynnwys protocolau profion RT-PCR o Tsieina, Ffrainc, yr Unol Daleithiau, Japan, Hong Kong a'r Almaen. Mae'r ffigurau o Ffrainc yn dangos cylch mwyhau 50 (t.4), ac mae'r rhai o UDA, Hong Kong a Japan yn nodi llinell drothwy 40 cylch (t. 38-9, 57-8), a 45 ar gyfer yr Almaen a Gwlad y Thai (t.62, 72, 75, 80).

Ar yr un pryd, mewn dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg Tŷ'r Cyffredin ar 17 Medi 2020, amlinelloedd yr Athro Carl Heneghan, Cyfarwyddwr y Ganolfan Meddygaeth Seiliedig ar Dystiolaeth, Prifysgol Rhydychen, ei bryderon mewn perthynas â'r profion RT-PCR, gan ddweud y canlynol:

The test is a very helpful one, but if you just use it in a blanket policy without thinking through the strategy of what test you use and with

what threshold, you end up with the problem of false positives. You identify too many people who could have had the infection in the past and you do not pick up the one or two people you have just described, the super-spreaders, where you need to isolate them and get to their contacts. Once we accept that the infection is endemic, we need a process whereby we start to develop our strategy around testing. A cycle threshold above 35 generally involves people who are not infectious, yet NHS England documentation that has not been updated since January runs cycle thresholds to 45 that identify people who are not infectious. (Q1283)

Mae cwestiynau'r Athro Heneghan am effeithiolrwydd profion PCR hefyd wedi'u nodi mewn papur briffio gan BMJ, sy'n dadlau'r canlynol:

Another problem with relying on PCR testing alone to define a covid-19 case is that, owing to the sensitivity of the test, it can pick up a single strand of viral RNA—but this doesn't necessarily equate to someone being infected or infectious.

## 2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-05-1062 Abandon the rt-PCR test for covid-19 testing as its unfit for purpose,  
Correspondence – Petitioner to Committee, 01.12.20**

There is worldwide pushback on the deliberate misuse of the rt-PCR test! It should not need any additional supporting evidence. The PCR is an exceptional tool, but it was never designed for detecting an active viral infection. The resulting casedemic has decimated western nations. This fraud has been left to continue by the very people the population trusted (or landed up with) to be in positions of power and influence. But yet, here we are. I'm sure there is plenty of intelligence at the Senedd, so anyone actually paying attention to world affairs should've worked this out by now. If a health sciences Diploma of high education student can work it all out, I'm sure qualified medical professionals at the disposal of the Senedd should've worked it out, also. I guess it's down to citizen activism from people who have not much left to lose.

I trust this will be sufficient supporting evidence for the immediate decommissioning of the rt-PCR test. I'm happy to provide even more evidence if required.

regards

[https://www.rt.com/op-ed/508383-fatal-flaws-covid-test/amp/?\\_twitter\\_impression=true](https://www.rt.com/op-ed/508383-fatal-flaws-covid-test/amp/?_twitter_impression=true)

<https://www.rt.com/op-ed/507937-covid-pcr-test-fail/>

<https://cormandrostenreview.com/report/>

<https://lockdownsceptics.org/the-pcr-false-positive-pseudo-epidemic/>

P-05-1070 Dylid cynghori pawb yng Nghymru sy'n eithriadol o agored i niwed neu a fu'n cysgodi gynt i aros gartref, nid mynd i'r gwaith, yn ystod cyfnodau pan fo lefel uchel o haint Covid-19 yn y gymuned

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Carol Dent, ar ôl casglu cyfanswm o 252 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Dylid ystyried les ac ofn gwirioneddol pobl eithriadol o agored i niwed yn ymwneud â Covid-19 mewn cyfnodau o gyfraddau haint uchel yn y gymuned. Mae llawer o bobl eithriadol o agored i niwed yng Nghymru yn arswyo rhag mynd allan bob dydd i weithio hyd at wyt hawr a mwy mewn amgylchiadau sydd, fel y gwyr pawb, yn annio gel.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Ni chydubyddir y ffaith bod llawer ohonom yn gweithio mewn mannau caeedig gyda nifer sylweddol o unigolion eraill ac ychydig iawn o awyru. Ni allwn ni leihau cysylltiadau, ac er y bydd masgiau yn lleihau lledaeniad y feirws, ni fyddant yn atal trosglwyddo, fel heintiadau a geir mewn ysbytai a gronynnau Covid-19 aerosol sy'n aros yn yr awyr mewn mannau caeedig am oriau. Rydym wedi dychryn ac yn wynebu'r risg o broblemau iechyd meddwl difrifol, anafiadau corfforol neu farwolaeth oherwydd Covid-19.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Aberconwy
- Gogledd Cymru

# Aros gartref yn ystod cyfnodau pan fo lefel uchel o haint Covid-19 yn y gymuned.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14687-5

Rhif y ddeiseb: P-05-1070

**Teitl y ddeiseb:** Dylid cyngori pawb yng Nghymru sy'n eithriadol o agored i niwed neu a fu'n cysgodi gynt i aros gartref, nid mynd i'r gwaith, yn ystod cyfnodau pan fo lefel uchel o haint Covid-19 yn y gymuned.

**Testun y ddeiseb:** Dylid ystyried lles ac ofn gwirioneddol pobl eithriadol o agored i niwed yn ymwneud â Covid-19 mewn cyfnodau o gyfraddau haint uchel yn y gymuned. Mae llawer o bobl eithriadol o agored i niwed yng Nghymru yn arswydo rhag mynd allan bob dydd i weithio hyd at wyth awr a mwy mewn amgylchiadau sydd, fel y gwyr pawb, yn annogel.

Ni chydubyddir y ffaith bod llawer ohonom yn gweithio mewn mannau caeedig gyda nifer sylweddol o unigolion eraill ac ychydig iawn o awyru. Ni allwn leihau cysylltiadau, ac er y bydd mygydau'n lleihau lledaeniad y feirws, ni fyddant yn atal trosglwyddo, megis heintiadau a geir mewn ysbytai a gronynnau Covid-19 aerosol sy'n aros yn yr awyr mewn mannau caeedig am oriau. Rydym wedi dychryn ac yn wynebu'r risg o broblemau iechyd meddwl difrifol, anafiadau corfforol neu farwolaeth oherwydd Covid-19.



## 1. Cefndir

Cyflwynwyd y cynllun gwarchod yn gychwynnol ym mis Mawrth 2020. Anfonwyd llythyr at bobl a ddiffinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, neu gan eu meddyg teulu, yn eu cyngori i aros gartref er mwyn gwarchod eu hunain rhag COVID-19. Mae rhestr o'r cyflyrau perthnasol wedi'i chynnwys yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y drefn warchod.

Daeth y cynllun gwarchod i ben yng Nghymru ar 16 Awst 2020, ond mae'r Rhestr Cleifion a Warchodir yn cael ei chadw, fel y gall Llywodraeth Cymru ysgrifennu eto at y grŵp hwn er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, neu os bydd y cyngor ar y drefn warchod yn newid.

Ym mis Hydref 2020, anfonodd y Prif Swyddog Meddygol llythyr at y sawl a oedd ar y Rhestr Cleifion a Warchodir, gan ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf iddynt. Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyngor yngylch y Nadolig ar gyfer y bobl hynny a oedd gynt yn gwarchod eu hunain, a hynny mewn ymateb i rai o'r cyfyngiadau ar gysylltiadau cymdeithasol a fydd yn newid rhwng 23 Rhagfyr a 27 Rhagfyr 2020.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu pobl a ddiffinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws (COVID-19) – y cynllun 'gwarchod' gynt (Tachwedd 2020) yn egluro pam na ofynnwyd i bobl warchod eu hunain eto mewn ymateb i gynnydd mewn achosion o COVID-19. Mae'r canllawiau yn nodi bod llawer o fesurau diogelwch newydd wedi'u rhoi ar waith yn ein cymunedau a'n gweithleoedd ers cyflwyno'r cynllun gwarchod, a bod y mesurau hyn wedi lleihau'r angen am gyngor cyfngol o'r fath. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi:

Gall gofyn i bobl warchod eu hunain am gyfnod sylweddol o amser achosi niwed i iechyd meddwl a chorfforol ac felly ni fyddwn yn gofyn i bobl warchod eu hunain eto oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol.

### Gwaith a chyflogaeth

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, ynghyd â dogfen Cwestiynau Cyffredin, yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â gwaith a chyflogaeth ar gyfer pobl a ddiffinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai unigolion yn y categori hwn weithio gartref lle bo modd gwneud hynny. Mae dyletswydd ar gyflogwyr i gymryd pob mesur rhesymol i leihau lledaeniad y coronafeirws. Felly, os na all person weithio gartref, gall y person hwnnw barhau i fynd i'r gwaith. Dylai cyflogwr fod yn gallu esbonio i staff y mesurau a roddwyd ar waith i gadw gweithwyr yn ddiogel yn y gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnodd asesu risg yn y gweithle er mwyn helpu pobl sy'n gweithio i wirio a oes risg uwch iddynt ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gyswllt â'r coronafeirws. Mae'n helpu pobl i ystyried eu ffactorau risg personol ar gyfer COVID-19, ac yn argymhell sut y gallant aros yn ddiogel. Mae'r adnodd hwn yn rhoi sgôr o 7 yn awtomatig i'r rhai a fu gynt yn gwarchod eu hunain, ac yn eu gosod yn y grŵp Risg Uchel lawn. Mae'r adnodd dan sylw yn adlewyrchu ystod a chymhlethdod y cyflyrau sydd wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn, cydnabyddir y bydd angen i'r bobl hyn gynnal trafodaeth bellach gyda'u rheolwyr llinell er mwyn ystyried eu risg bersonol a'u gweithle. Mae'n bosibl y bydd angen cynnwys y tîm lechyd Galwedigaethol yn y drafodaeth hon er mwyn penderfynu a yw'n ddiogel i'r staff ddychwelyd i'r gwaith.

Rhaid i bob busnes gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a hynny drwy sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng gweithwyr yn y gweithle (os nad oes modd iddynt weithio gartref). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gyflogwyr ynghylch rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau bod y gweithle yn ddiogel.

Mae Llywodraeth Cymru wedi annog cyflogwyr i fod mor hyblyg â phosibl o ran amgylchiadau personol unigolion yn ystod y pandemig.

Os yw unigolyn wedi cael cyngor gan ei feddyg i beidio â dychwelyd i'r gwaith yn sgil ei gyflwr iechyd, bydd angen iddo ddarparu nodyn ffitrwydd at ddibenion hawlio Tâl Salwch Statudol.

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae gohebiaeth a anfonwyd at y Pwyllgor gan y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, dyddiedig 26 Tachwedd 2020, yn nodi bod y Prif Swyddog Meddygol, wrth ysgrifennu at bawb ar y Rhestir Cleifion a Warchodir yng Nghymru ym mis Hydref 2020, wedi pwysleisio'r angen i leihau cysylltiadau ag eraill cyn belled ag y bo modd.

Nododd y Gweinidog fod y sefyllfa'n wahanol iawn ar ddechrau'r pandemig, pan wnaeth Llywodraeth Cymru gynghori pobl eithriadol o agored i niwed i gymryd camau gwarchod, gan nad oedd "unrhyw fesurau mewn unrhyw sector o gymdeithas i leihau lledaeniad y feirws a dim rheolau na rheoliadau ar waith." Dywed y Gweinidog: "Yn awr, gyda mesurau cyson ar waith, nid gofyn i bobl eu gwarchod eu hunain gartref eto yw'r opsiwn gorau gan y gallai achosi mwy o niwed i iechyd meddwl a chorfforol pobl."

Mae'r Gweinidog yn cydnabod y bydd gan bobl bryderon am eu hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith, ond mae'n nodi mai'r sgyrsiau cyntaf y dylai pobl eu cael o dan yr amgylchiadau hynny yw sgyrsiau gyda'u cyflogwr, ac mae'n cyfeirio at yr **adnodd asesu risg** y soniwyd amdano eisoes. Mae'r Gweinidog yn nodi, os bydd pobl yn parhau i bryderu, gellir codi'r pryderon hynny gyda chynrychiolwyr diogelwch undebau neu, yn y pen draw, gyda'r sefydliad sy'n gyfrifol am orfodi yn y gweithle-naill ai'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch neu'r awdurdod lleol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/08847/20

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

26 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd ynghylch y ddeiseb ganlynol:

**Deiseb P-05-1070 Dylid cynghori pawb yng Nghymru sy'n eithriadol o agored i niwed neu a fu'n cysgodi gynt i aros gartref, nid mynd i'r gwaith, yn ystod cyfnodau pan fo lefel uchel o haint Covid-19 yn y gymuned**

Ysgrifennodd Prif Swyddog Meddygol Cymru yn ddiweddar at bawb sydd ar y Rhestr Cleifion a Warchodir yng Nghymru, i roi gwybod iddynt na fyddai'n ailgyflwyno mesurau gwarchod llym ar hyn o bryd. Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys cyngor ar sut i leihau risg personol drwy ddilyn y rheolau sylfaenol yn llym, ond pwysleisiodd hefyd ein bod yn gweld y trosglwyddo mwyaf lle mae pobl yn teimlo'n fwyaf hamddenol – sef yn eu cartrefi eu hunain. Rhoddyd y pwyslais ar leihau cyswllt cyn belled â phosibl ag eraill.

Pan wnaethom gynghori pobl sy'n agored iawn i niwed i gymryd camau gwarchod ar ddechrau'r pandemig i ddechrau – nid oedd unrhyw fesurau mewn unrhyw sector o gymdeithas i leihau lledaeniad y feirws a dim rheolau na rheoliadau ar waith. Yn awr, gyda mesurau cyson ar waith, nid gofyn i bobl eu gwarchod eu hunain gartref eto yw'r opsiwn gorau gan y gallai achosi mwy o niwed i iechyd meddwl a chorfforol pobl.

Mae'r Prif Swyddog Meddygol yn adolygu ei gyngor yn gyson a bydd yn ysgrifennu at bawb ar y Rhestr Cleifion a Warchodir eto os bydd unrhyw newid i'w gyngor.

Rhaid i gyflogwyr gymryd pob cam rhesymol i leihau cysylltiad â'r coronafeirws drwy sicrhau bod pellter o 2m yn cael ei gynnal rhwng gweithwyr yn y gweithle (os na allwch weithio gartref) ac mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi canllawiau i gyflogwyr ar gymryd camau i wneud y gweithle'n ddiogel: <https://llyw.cymru/eich-cyfrifoldebau-fel-cyflogwr-coronafeirws>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn sylweddoli y bydd gan bobl bryderon am eu Hiechyd a Diogelwch yn y gwaith, ond o dan yr amgylchiadau hynny y sgwrs gyntaf y dylai pobl ei chael yw gyda'u cyflogwr.

Rydym wedi cyhoeddi amrywiaeth o ddulliau asesu risg i bobl eu defnyddio i helpu i hwyluso'r sgwrs honno [www.llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu](https://llyw.cymru/adnodd-asesu-risg-covid-19-ar-gyfer-y-gweithlu)

Os bydd pobl yn parhau i bryderu, gellir codi pryderon gyda chynrychiolwyr diogelwch undebau, neu yn y pen draw gyda'r sefydliad sy'n gyfrifol am orfodi yn y gweithle, naill ai'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch neu'r awdurdod lleol.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau a rhestr o Gwestiynau Cyffredin i helpu i gefnogi'r rhai sy'n agored iawn i niwed yn glinigol i ddod o hyd i'r atebion i gwestiynau sydd ganddynt. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf a gellir eu gweld yma -

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddiogelu-pobl-ddiffinnir-ar-sail-feddygol-fel-rhai-eithriadol-o-agored-i-niwed-yn>

Mae ein dogfen Cwestiynau Cyffredin yma- <https://llyw.cymru/pobl-eithriadol-o-agored-i-niwed-yn-sgil-covid-19-sydd-wedi-bod-yn-qwarchod-eu-hunain-cwestiynau>

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**

Y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**P-05-1070 Advise all people who are extremely vulnerable or previously shielding in Wales to stay home, not work, during periods of high covid 19 community infection, Correspondence – Petitioner to Committee, 07.12.20**

Petitions Committee

Ref P- 05-1070

CEV Shielding in Wales

Petitioner Carol Dent

07/12/2020

I am a 60 yr old CEV clinical nurse working for BCUHB in North Wales. In March 2020 I was shielded by the welsh government. From August following a covid 19 risk assessment at work I was evaluated at very high risk and categorized as no face to face contact . For a short period of time I was allocated paperwork to be undertaken part work /part home. On completion I awaited a temporary redeployment from clinical. However before that were organized Infection rates for covid 19 increased and with employer support I was advised to stay home which is my current situation.

I consider myself fortunate that my employer has supported me in this way but do have great concerns this support could stop at any time and I have no confirmation at all is this support will continue

The petition is on behalf of the many CEV in Wales I have been in contact with via a face book group shielding in Wales. It is very evident within that group that others have been less fortunate than I

Noticeably has been the terror and fear they are living with by going into work every day during high peaks of community infection rates. Many have been forced into taking sick leave for anxiety and stress. Others are struggling in the workplace because they cannot undertake normal duties and are being accused of mental health issues because they fear the infection. Some have been forced to hand in notice and lose their jobs

Overall I don't believe the welsh government understands the difficulties and pressures the CEV are experiencing in work places .There is a definite contradiction in the advice given to CEV from the government which does not help the situation. We are told to reduce contact, shop late, have no visitors to our homes. Yet we can go to work in poorly ventilated work places with multiple persons in the same work space, sharing facilities such as canteens, rest rooms without masks and in many cases sharing packed public transport to get to work

I ask the committee to consider the massive impact this is having on the mental health of the extreme clinically vulnerable workers in Wales. Its terror and real fear, they are suffering harassment for those fears. These are not people too ill to work in normal circumstances they want to be working but simply can't safely do their jobs

I disagree with the governments statement it was bad for mental health shielding people. I was one of them , these people I am discussing were shielders . It was a shock and difficult to come to terms with but we were safe and on that basis alone it invalidates the claim mental health suffered .

The current situation of facing death every day for eight plus hours in a work place environment that is far from safe is far more detrimental to wellbeimng and stability of mental health

I have forwarded six emails from the group Sheilding in Wales , including an email I sent to the first minister I simply ask the committee to consider the views of those who are really experiencing life with CEV during increase infection of covid 19 in the community in Wales and you recognize how harmful the experiences are in the working environment

With Regards Carol Dent

Pp ,to be read with email attachment sent individually PETITION P-05-1070

**P-05-1070 Advise all people who are extremely vulnerable or previously shielding in Wales to stay home, not work, during periods of high covid 19 community infection, Correspondence / Personal Testimonies – Petitioner to Committee, 07.12.20**

I support the shielding for wales.

I'm at high risk and seeing today's cases in wales are serious , shielding should be advised without fail . Even for workers . It's wrong to have them working in these conditions at moment . Please please I beg you bring shielding back . My partner would be safer at home protecting me and children than be out catching or even spreading it to us .

Please hear us call for help , don't ignore us

---

I'm a teaching assistant in a mainstream high school. Been doing this for over a decade and support pupils with all kinds of needs. I was previously shielding, most of that time I was on my own, as advised by the Welsh Gov. Then, after 5 months of 'doing the right thing' everything was relaxed and we were told to forget the shielding that had deemed us so vulnerable. I was very anxious to go back into work considering the previous advice I was given but I did this. Risk Assessments are a farce. Social distancing "Where possible" is basically impossible the vast majority of the time. I wore a mask and was just told to wear a visor as well. Anyway, I ended up in a class full of 31 teenagers with little ventilation and no possibility whatsoever to "stringently socially distance by 2 metres". This is advice from my GP and 2 separate consultants. Not surprisingly I had an acute stress reaction, couldn't catch my breath, thought I was having a heart attack, total panic, shaking, sweating and sobbing. The whole experience has totally taken me, a pretty gutsy independent woman, by a devastating 'surprise'.

Through no fault of my own, just bad luck, I have 2 medical conditions. I have been signed off on the sick by my GP since this happened in September. I do not feel safe at work. I am having to take antidepressants and beta blockers. Soon my pay will be halved. I have requested redeployment or work from home but due to the nature of the job this is proving difficult for the school as is stringent 2 metre social distancing.

I understand the mental health issues that have been discussed endlessly but the genuine and very real fear for those of us who are still referred to as extremely

vulnerable yet are being punished for their medical conditions or are having to make a choice as to whether or not to forgo health advice because of money constraints.

It is so wrong. At least give us the choice to do the right thing, Mr Drakeford!

I hope we see some compassion soon.

Best wishes,

---

For the attention of the Welsh Government

I understand all of the arguments about the effect on mental health of shielding but I would also point out that shielding was advisory and not mandatory and was never intended as a prison sentence and I feel that the vast majority of shielding people understood this but this was not acknowledged in the media. My real problem with the Welsh Government's refusal to reintroduce formal shielding is that it leaves those working on frontline jobs at the mercy of their employers.in order to illustrate this I will tell you about my own recent experience . I have worked for my employer for the last 21 years, it is a not for profit organisation and we provide respite breaks for carers very often at incredibly short notice .To cut costs most risk assessments are done over the phone and sometimes via a third party agency and this has been the case for some time- not ideal at the best of times. They have no HR department and my line manager and the CEO. have made it clear that the needs of the business come first. They have told me that they will not put me on furlough again because they have clients waiting in my area and they cannot recruit while they have me on furlough it is against HMRC rules. I have checked on this with HMRC,ACAS and an employment officer at the CAB and all of them did not know what they were talking about. They have made no attempt to find an alternative role for me even though their website shows they are offering welfare phone calls to clients I do not trust them to complete a covid risk assessment and I now believe they are using this situation to force my hand i.e. force me to return to work or to resign. I might add that they have experienced long term problems with staff recruitment and retaining staff. I have been forced to go cap in hand to my GP to request sick leave as I am petrified about what would await me at work He has signed me off for a month but he feels this should be between me and my employer and I think he, like the Welsh Government, imagines everyone's employer will play by the

rules which they would in an ideal world So there you have it I feel completely abandoned by the Welsh Government which is a crying shame when you consider how good they have been compared to Westminster.

Yours

---

I'm writing with a plea for the Senedd to please relook at the shielding process for the clinically extremely vulnerable.

Working in mental health services in North Wales, I fully understand the impact of isolation on mental health however the stress, anxiety and worry of having no choice but to be in an at-risk environment is having a detrimental affect on overall well-being.

For me personally, I reside and work for the BCU Health Board in areas where local restrictions apply and I came off maternity leave early to try help however I could in March. Due to being CEV I have worked from home throughout and contributed well to the team. Now, there are talks of being back in the office despite cases reaching higher levels than when we entered lockdown. This seems to be decisions made daily at the whim of employers; could the working from home guidance be more legislative to give added protection. I can work from home and have proven this for the past 7 months yet it seems soon this guidance maybe ignored. The daily figures, lack of protection and indecisiveness from work policy is severely heightening anxiety and stress.

Rather than a blanket shielding policy is it a possibility to consider some form of protection for the CEV. Those who do not want to; don't. But those who felt safer with those measures, do, and have the support from employers to complete any work from home. Those who cannot work from home undertake other works; TTP, welfare calls as examples- therefore safe and contributing to the pandemic. It feels ironic that us in health etc. who are CEV, have contact with individuals who admit themselves to not adhering to social distancing measures are attending high risk work places whereas some of the fit and well remain at home financially supported.

In a way it feels like a choice between go to work to survive, support families and be at risk..or not work, protect health and be at risk from economical and social issues.

I think the Senedd have done a good job in these unprecedeted times and I thought it may be helpful to see a point from someone on both sides of the shielding debate. To conclude; for me, I would much rather be protected, save spaces in intensive care units, putting less pressure on overall health services and lessen stress and anxiety on myself and my loved ones by having a form of legislative protection.

Diolch yn fawr

---

Dear Mr Drakeford

I apologise for taking up your time, as I appreciate you're very busy at the moment and as a result, this email may not even reach you. However, incase it does I wish to raise my concern with you below.

Well, let's start with why shielding was initially introduced.. To protect those vulnerable? Protect our NHS? Or both? Please can someone clarify when this changed as from listening to briefings and government guidelines alone, people are still very vulnerable to this virus (perhaps even more now) and our hospitals are getting fuller therefore at risk of getting overrun (This is all taken from daily briefings, not even media which could be exaggerated!)

My husband was one of those written to previously to shield as he has an immune condition (his body doesn't produce antibodies).

We understood the decision previously made to "pause" shielding as the number of cases were decreasing at the time, so we felt reassured by this decision. However, the case numbers are dangerously back on the rise again (along with the increase in deaths), so much so we have had a few lockdowns now (both local and national) and are still left under various strict restrictions. And yet, the government are still not reintroducing shielding! And why? to protect the mental health of those vulnerable and other 'reasons' such as understanding the virus better etc.

Personally, I feel to use mental health as a reason is extremely vague and quite patronising - why? Because you clearly underestimate how people not having the option to shield is effecting that very same thing! People's mental health is at an all time low, as they're extremely anxious and fearing for their lives (and this isn't being dramatic!).

Could you not reintroduce shielding with the following measures to aid mental health:

\* Advise people to bubble with another household (as previously done and which is the current rule for every resident in Wales now anyway)

\* Advise daily exercise (as done previously)

Shielding to a lot of vulnerable people right now would give a lot of ANXIOUS people who work (especially in frontline jobs) huge peace of mind and the relief of being able to be furloughed once again. These people (like my husband) cannot just choose to stay off work themselves, due to the financial loss this would lead too.

For us personally, my husband isn't able to work from home as he's a patrolman. Therefore sees multiple people a day on his 11hr shifts getting in and out of their cars to assist them. Although his works have put overall measures in place to try and reduce the risk - I cannot put into words how worried/paranoid I am by this.

Please, please reconsider shielding for the extremely vulnerable? Afterall, as the CMO always states it is infact only his advice! But that advice would mean the world to so many families. As I am not alone in worrying about my loved one and feel it very heartbreaking they're almost left feeling they have to choose between their health or wealth!

Thank you for reading, these are such worrying times for everyone - I just wanted to feel like I tried to do something.

Stay safe!

Kind regards,

---

I am a senior support worker in a mental health and learning disability hospital where 2 metres is impossible. Challenging behaviour means I can be attacked, spat at, need to restrain or simply due to communication issues saliva is constantly airborne. I feel so so unsafe there and there is nothing I can do about it. I have a history of mental health issues anyway and this situation is much more anxiety provoking and detrimental to me than shielding ever was! In fact I have now been signed off on the sick because I have had a complete breakdown. When shielding was introduced we still had a choice not to do so! Now we have no choice at all! By bringing shielding back people can choose which scenario works best for them! I know there are people who would want to continue working and could still do so, give us the choice back to choose how we keep ourselves safe. Now I am not only at risk because of the virus but because of my own mental health too!

---

Dear Committee,

I right to, to express my concerns as a Clinically Extremely Vulnerable (CEV) member of Public. Back In March we were all safeguarding from the Covid-19 virus. In August this shielding was paused however we were informed shielding can be re-introduced should cases rise again.

The current situation in Wales is one of the worst affected areas of the UK. 69% of the current deaths in Wales are of those classed as CEV.

You're reasoning for not re-introducing shielding as quote by Dr Atherton, Vaughan Gethin and Mark Drakeford, is that it causes extreme harm especially to people mental health. However, you have greatly under estimated the severe adverse effect in not re-introducing shielding is having on the CEV.

The Governments latest guidance is to work from home and minimise contact with those outside your household. However, there are many of us who work in frontline jobs where this option is not available at all.

For example, I work for the Welsh Ambulance service, I am unable to do my Job from home. I have been advised by my work That should my GP provide a letter for me to shield again this would be un-sanctioned absence. I have unfortunately seen many patients as well as colleagues in the NHS die because of this virus. I am deeply concerned as I am seeing more and more patient present with covid, and indeed I am now seeing rising cases in my work place again.

I am suffering severe anxiety due to not being able to make an informed choice to safeguard myself and my family. I cannot afford to have no wages should I decide to stay home. This with the real risk of catching covid-19 it is having severe effects on my mental health. And before a comment is made, I should speak to my employer and GP to help with my anxiety I have done this on a regular basis, but again if I chose to stay home, I have no support to do this from my GP, Employer and more importantly you the Welsh Government

Shielding was always a **choice** not law, however for us as individuals to be able to exercise our autonomy we need the support from the government to enable us to approach our employers and advise them we need to shield without have financial repercussions in doing so.

We plead with the government to advise those who cannot work from home to stay at home. The guidance thus far seems to completely bypass our vulnerability. I have worked in Healthcare for many years and would want to do so for many more years to come. I currently am having to make a choice between financial stability and my life.

The government have never in my experience governed how we care for our patients, but when I speak to many colleagues and my own GP who advise they cannot advise us to shield until the Government instruct us to, I find totally unacceptable.

Myself and thousands of frontline workers in; retail, NHS, hospitality, local government roles and many more, need the government to do the right thing and re-introduce shielding guidance to allow those who want/need to have support and evidence to produce to thier employers. Every individual has a right to autonomy, but you failing to allow us to do this without this clear guidance.

I do not want to see many of my CEV colleagues, friends and family, suffer long term health complication on top of already complex health needs or even worse lose their life to this virus because the Welsh Government seem to be lacking the full scale of how the virus is affecting the CEV community.

Many of us have emailed Mark Drakeford, Vaughan Gethin, Dr Atherton expressing our serious concerns and had no reply acknowledging this.

It is time for the Welsh Government to really start to look after their most vulnerable members of the nation before it is too late.

Yours sincerely

P-05-1074 Cynyddwch nifer y bobl sy'n cael bod mewn manau awyr agored fel y gall pob tîm yng Nghymru ailddechrau chwarae pêl-droed

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Morgans, ar ôl casglu cyfanswm o 5,330 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

COVID-19 – yn ôl y rheolau /deddfwriaeth bresennol, dim ond 30 o bobl a ganiateir mewn man awyr agored! Ar gyfer gêm bêl-droed, mae angen 11 yn erbyn 11 ynghyd â swyddogion a staff... felly mae'n amhosibl ailddechrau'r cyngreiriau cystadleuol i oedolion tan fod y nifer hon yn cael ei chynyddu! Gellir cynnal gemau yn ddiogel ac yn effeithiol pe bai'r nifer yn cynyddu i 30 o bobl heb gynnwys y chwaraewyr a'r swyddogion ar y cae. Gofynnwn i chi gysylltu â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ac ystyried cynyddu'r niferoedd fel y gall Haen 2 ac is ailddechrau chwarae.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Noder bod Cymdeithas Bêl-droed Lloegr / Cymdeithas Bêl-droed yr Alban a Chymdeithas Bêl-droed Iwerddon fwy neu lai wedi ailddechrau eu cyngreiriau pêl-droed lleol a chenedlaethol.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Rhondda
- Canol De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1074  
Ein cyf/Our ref DET/03160/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

23 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ynglŷn â'r ddeiseb ar y rheoliadau sy'n llywodraethu nifer y bobl y caniateir iddynt ymgynnull ar gyfer gemau pêl-droed.

Mae'r mesurau cenedlaethol mewn ymateb i'r coronafeirws a ddaeth i rym ar 9 Tachwedd, yn dilyn y cyfnod atal diweddar, yn golygu y gall unrhyw un gymryd rhan mewn chwaraeon neu wneud ymarfer corff mewn grŵp o hyd at 30 o gyfranogwyr yn yr awyr agored neu hyd at 15 dan do, os yw hyn yn rhan o weithgaredd wedi'i drefnu a reolir er enghraifft gan gampfa, canolfan hamdden neu glwb chwaraeon. Yn gyffredinol, byddai hyfforddwyr a swyddogion cyfatebol yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr felly dylai'r terfyn o 30 neu 15 eu cynnwys. Fodd bynnag, gall unrhyw un sydd yno i drefnu neu gefnogi'r gweithgaredd, os yw'n gweithio neu'n darparu gwasanaeth gwirfoddol, hefyd fynychu ac nid oes angen ei gynnwys o fewn y terfyn o 30 neu 15. Mae plant dan 11 oed hefyd yn cael eu heithrio o'r nifer a ganiateir.

Bydd y mesurau newydd hyn hefyd yn caniatáu i haenau ychwanegol o chwaraeon ddychwelyd i chwarae. Rhoddwyd cyfrifoldeb i Chwaraeon Cymru ystyried ychwanegiadau pellach i'r dynodiad elît fel bod modd i fwy o chwaraeon tîm gael eu cynnal yn yr awyr agored lle mae'r rhif o 30 person wedi cyfyngu ar weithgareddau. Gwneir hyn mewn ffodd reoledig a fesul cam a dim ond pan fo canllawiau clir ar waith gan gyrrf llywodraethu chwaraeon i ddiogelu pawb sy'n cymryd rhan.

Gwahoddwyd Cymdeithas Pêl-droed Cymru i gyflwyno eu cynigion ar gyfer galluogi i bêl-droed ailddechrau a dylai Cymdeithas Pêl-droed Cymru barhau i drafod gyda Chwaraeon Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, nid oes terfyn bellach ar nifer y plant o dan 18 oed sy'n gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon a drefnir ar gyfer datblygu neu sicrhau lles plant na'i hwyluso, sy'n golygu y gall mwy o chwaraeon timau ieuencnid barhau. Rhaid i'r gweithgaredd gael ei drefnu a'i oruchwylia gan gorff cyfrifol fel clwb chwaraeon, corff cyhoeddus, elusen neu gampfa neu ganolfan hamdden. Dim ond terfynau'r lleoliad sy'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Tudalen y pecyn 104

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyfyngu ar nifer y plant o dan 18 oed sy'n gallu cymryd rhan yn gyfreithiol a hefyd yr angen i ddigon o oedolion fod yn bresennol i oruchwyllo.

Gobeithio bod hyn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi a'r pwylgor ei hystyried mewn perthynas â'r ddeiseb, ac yn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn cymryd camau gweithredol i alluogi mwy o chwaraeon tîm i ddigwydd dros y misoedd nesaf. Mae'n rhaid imi bwysleisio, fod bynnag, fod yn rhaid rheoli hyn drwy ddull gweithredu fesul cam a hynny er gwaethaf y ffaith ein bod yn ceisio caniatáu i fwy o chwaraeon tîm awyr agored ailddechrau. Mae'n hollbwysig sicrhau ein bod yn gwneud hyn mewn modd diogel a'n bod yn lliniaru unrhyw risg i reoli lledaeniad y feirws.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

## Eitem 2.7

P-05-1076 Caniatáu i'r holl Gelfyddydau Perfformio ailagor – cerddoriaeth fyw, dawns, theatrau a neuaddau cyngerdd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Catherine Tanner, ar ôl casglu cyfanswm o 338 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Pam rydym ni'n gallu eistedd ar awyren am 8 awr, yn gwisgo mwgrwd, ond heb gadw unrhyw bellter cymdeithasol... ond allwn ni ddim gwyllo cyngerdd o dan yr un amodau?

Pam mae pobl mewn tafarndai / caffis yn gallu eistedd 2m ar wahân, yn siarad heb wisgo masgiau ... ond allwn ni ddim eistedd mewn distawrwydd 2m ar wahân yn gwyllo cerddoriaeth fyw?

Pam rydym yn gallu gwyllo ffilm yn y cinema, neu wrando ar offeiriad mewn eglwys, ond allwn ni ddim gwyllo un cerddor yn perfformio ar ei ben ei hun dan do?

Rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r gorau i drin y celfyddydau a cherddoriaeth fyw yn annheg er bod popeth arall wedi ailagor.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Cynhaliwyd Gŵyl Salzburg eleni – dim achosion.

<https://bachtrack.com/feature-austria-salzburg-festival-covid-19-september-2020>

Agorodd Ffilharmonig Berlin eleni.

<https://www.berliner-philharmoniker.de/en/>

Ailagorodd neuaddau cyngerdd yn Lloegr eleni ac ailddechreuodd perfformiadau cerddoriaeth fyw.

O dan yr Offeryn Statudol sydd mewn grym ar hyn o bryd, bydd neuaddau cyngerdd ar gau tan Chwefror 2021 felly, am y tro cyntaf yn ei hanes, bydd Cymru wedi gwahardd cerddoriaeth fyw am flwyddyn. Cafodd y celfyddydau

yng Nghymru eu llethu dros yr haf oherwydd y penderfyniad i wahardd cyngherddau awyr agored hyd yn oed pan oedd bron pob gwlaid arall yn Ewrop yn caniatáu hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrrthod gadael i'r celfyddydau agor o dan yr un telerau ag y mae'n caniatáu i ysgolion, siopau a busnesau lletygarwch agor. Mae hyn yn rhagriithiol ac yn hynod annheg. Mae mesurau cadw peller cymdeithasol naill ai'n gweithio, neu dydyn nhw ddim.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont at Ogwr
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1076  
Ein cyf/Our ref DET/03208/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

25 Tachwedd 2020

Annwyl Janet

Rydym wedi dechrau'r broses o ganiatáu i theatrau ailagor, gyda chapasiti cyfyngedig. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u diwygio er mwyn caniatáu i theatrau ailagor os caiff y defnydd o'r safle ei ddarledu heb i gynulleidfa fod yn bresennol (boed dros y rhyngrwyd neu fel rhan o ddarllediad ar y radio neu'r teledu) neu ar gyfer ymarfer wrth baratoi darllediad o'r fath.

O fewn cyd-destun ehangach iechyd y cyhoedd, mae gofyn i theatrau, neuaddau cyngerdd a lleoliadau cerddoriaeth fyw aros ar gau i'r cyhoedd ac mae'n rhaglen digwyddiadau prawf wedi'i hatal am y tro. Credwn y bydd theatrau a neuaddau cyngerdd yn agwedd allweddol ar ein dull o gynnal digwyddiadau prawf na fydd yn ailddechrau hyd o leiaf fis Chwefror 2021. Nid ydym yn disgwyl i ddigwyddiadau, gan gynnwys rhai lle y bydd llawer o bobl yn ymgynnull, ailddechrau hyd y Gwanwyn a bydd y Gronfa Adfer Diwylliannol sydd werth £63m yn cefnogi'r sector ac yn sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor yn y cyfamser.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "J. Elis-Thomas".

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**  
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**  
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 108**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-05-1095 Gosodwch gyfyngiadau symud i ysgolion gael pythefnos o wyliau cyn 24 Rhagfyr a galluogi pawb i gael amser teuluol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Chambers, ar ôl casglu cyfanswm o 10,836 lofnodion.

## Geiriad y ddeiseb:

Mae ysgolion yn dal i gael problemau gydag achosion COVID gyda grwpiau blwyddyn cyfan yn cael eu hanfon adref mewn rhai achosion, hyd yn oed ar ôl y cyfnod atal byr diweddar a barhaodd am bythefnos. Bydd seibiant am 14 o ddyddiau'n galluogi rhai teuluoedd i gael amser teuluol hollbwysig dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i adfywio cysylltiadau teuluol a chael trafodaeth bwysig am broblemau iechyd meddwl ymhliith yr ifanc a'r hen.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae deiseb debyg a gobeithio y cynhelir dadl yn ei chylch yn Lloegr.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru

# Gosodwch gyfyngiadau symud i ysgolion gael pythefnos o wyliau cyn 24 Rhagfyr a galluogi pawb i gael amser teuluol.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14805-1

Rhif y ddeiseb:P-05-...

Teitl y ddeiseb: Gosodwch gyfyngiadau symud i ysgolion gael pythefnos o wyliau cyn 24 Rhagfyr a galluogi pawb i gael amser teuluol.

Testun y ddeiseb:Mae ysgolion yn dal i gael problemau gydag achosion COVID gyda grwpiau blwyddyn cyfan yn cael eu hanfon adref mewn rhai achosionhyd yn oed ar ôl y cyfnod atal byr diweddar a barhaodd am bythefnos. Bydd seibiant am 14 o ddyddiau'n galluogi rhai teuluoedd i gael amser teuluol hollbwysig dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i adfywio cysylltiadau teuluol a chael trafodaeth bwysig am broblemau iechyd meddwl ymhllith yr ifanc a'r hen.



# 1. Cefndir deddfwriaethol

## 1.1. Cau ysgolion

Mae gan awdurdodau lleol bwerau i gau ysgolion drwy ddefnyddio Rheoliadau Rheoli Mangreoeedd Ysgol (Cymru) 2008 ac adran 29(5) o Ddeddf Addysg 2002. Gall awdurdodau roi cyfarwyddyd i ysgolion (ac eithrio ysgolion sefydledig, ysgolion arbennig sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir) gau ar sail diogelwch. Fodd bynnag, ni all awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ysgolion aros ar agor neu agor. Ni chaniateir i awdurdodau lleol roi cyfarwyddyd i ysgolion sefydledig, ysgolion arbennig sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gau. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â pholisiau iechyd a diogelwch y corff llywodraethu a'u rhoi ar waith.

Mae Deddf y Coronafeirws 2020 yn gwneud darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i gyfyngu ar bresenoldeb mewn mangreoeedd a ddefnyddir i ddarparu addysg neu ofal plant.

## 1.2. Pennu dyddiadau tymhorau ysgol

Mae Adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi'r canlynol:

### Responsibility for fixing term and holiday dates in Wales

(1)A local authority in Wales must determine the term dates for each community, voluntary controlled or community special school or maintained nursery school in its area.

(2)A governing body of a foundation or voluntary aided school in Wales (a "relevant governing body") must determine the term dates for its school.

(3)In exercising its functions under subsection (1), a local authority must co-operate and co-ordinate with—

(a)each relevant governing body in its area, and

(b)every other local authority in Wales,

to ensure that the term dates determined are the same (or as similar as can be) for every maintained school in Wales.

(4) In exercising its functions under subsection (2), a relevant governing body must co-operate and co-ordinate with—

- (a) the local authority, and
- (b) every other relevant governing body in the local authority's area,

to ensure that the term dates determined are the same (or as similar as can be) for every maintained school in Wales.

## 2. Galw am gau ysgolion yn gynnar

Ar 25 Tachwedd 2020, ysgrifennodd undeb athrawon UCAC at Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, yn gofyn iddi ystyried yr opsiynau sydd ar gael i leihau'r risg y bydd disgyblion a staff yn gorfol hunanynysu dros y Nadolig. Awgrymwyd mai un opsiwn fyddai i ysgolion a cholegau addysg bellach gau ddydd Gwener 11 Rhagfyr a rhoi trefniadau dysgu o bell ar waith yn ystod wythnos olaf y tymor.

Yn ei hymateb i UCAC, dywedodd y Gweinidog:

my position remains clear that schools should remain open until the end of term. Schools are a controlled and regulated setting, therefore consideration needs to be given to the possible wider health harms that could be caused by them not being in school i.e. wider community mixing and more time spent with older relatives i.e. grandparents (especially in multi-generational households).

Pe bai ysgolion yn cau'n gynnar, meddai, byddai angen ystyried yr hyn a fyddai'n digwydd i'r disgyblion hynny y mae eu rhieni neu eu gofalwyr yn gweithio, ac ystyried hefyd y posibilrwydd y byddai angen i deidiau a neiniau mwy agored i niwed ddarparu gofal plant, a'r goblygiadau i blant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed y byddai angen gofalu amdanynt mewn canolfannau, tebyg i'r hyn a ddigwyddodd pan gaeodd yr ysgolion ym mis Mawrth.

## 3. Safwynt yr awdurdodau lleol

Deellir bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cytuno y byddai ysgolion yn aros ar agor i ddysgu disgyblion wyneb yn wyneb. Ar 4 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent y byddai'r ysgolion yn ei ardal yn dechrau dysgu'r holl ddisgyblion o bell o ddydd lau, 10 Rhagfyr ymlaen.

Ar 7 Rhagfyr, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, y byddai'r ysgolion yn ei ardal ar agor dim ond i staff a dysgwyr agored i niwed, blaenoriaeth uchel, ar 17 a 18 Rhagfyr. Byddai gweddill y disgyblion yn dysgu o bell neu'n dysgu'n ddigidol ar 17 a 18 Rhagfyr.

Mae Ysgol Sant Martin yng Nghaerffili wedi penderfynu cau i ddisgyblion wythnos yn gynnar. Dywedodd pennath yr ysgol fod nifer o rieni wedi dweud y byddent yn cadw eu plant gartref yn ystod wythnos olaf y tymor. Bydd yr ysgol yn cau wythnos yn gynnar drwy symud diwrnodau HMS yr haf nesaf i ddiwedd y tymor hwn.

## 4. Y sefyllfa yng ngwledydd eraill y DU

Ar 30 Tachwedd 2020, cadarnhaodd Peter Weir, Gweinidog Addysg Gogledd Iwerddon na fyddai ysgolion yn cau'n gynnar cyn y Nadolig.

Ar 3 Rhagfyr 2020, mewn a llythyr at Bwyllgor Addysg a Sgiliau Senedd yr Alban, cadarnhaodd John Swinney, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Sgiliau, na fyddai dyddiadau gwyliau Nadolig yr ysgolion yn newid.

Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Canllawiau sy'n nodi:

You should continue to attend your school or college until the last day of normal term time. Schools and colleges should not change their Christmas holidays or close early this term. Parents should continue to send their children to school during term time and students should continue to attend college right up until the end of term – our senior clinicians continue to advise that the best place for children and young people is in education. The time-limited change to social restrictions over Christmas does not require any children to be taken out of school prematurely.

## 5. Deiseb yn Lloegr

Mae Pwyllgor Deisebau Senedd y DU yn ystyried deiseb sy'n dwyn y teitl, Implement a two week school lockdown before 24 December to save Christmas, sy'n galw ar ysgolion i ddysgu ar-lein o 9 Rhagfyr ymlaen. Adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, roedd 120,707 wedi llofnodi'r ddeiseb. Mae Llywodraeth y DU wedi ymateb i'r ddeiseb drwy gadarnhau na ddylai ysgolion gau'n gynnar na newid

dyddiadau eu gwyliau Nadolig a bod osgoi tarfu ymhellach ar addysg yn parhau'n flaenoriaeth genedlaethol. Trafododd y Senedd y ddeiseb ar 7 Rhagfyr 2020.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddu o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

P-05-1095 Gosodwch gyfyngiadau symud i ysgolion gael pythefnos o wyliau cyn 24 Rhagfyr a galluogi pawb i gael amser teuluol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Chambers, ar ôl casglu cyfanswm o 10,836 lofnodion.

## Geiriad y ddeiseb:

Mae ysgolion yn dal i gael problemau gydag achosion COVID gyda grwpiau blwyddyn cyfan yn cael eu hanfon adref mewn rhai achosion, hyd yn oed ar ôl y cyfnod atal byr diweddar a barhaodd am bythefnos. Bydd seibiant am 14 o ddyddiau'n galluogi rhai teuluoedd i gael amser teuluol hollbwysig dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i adfywio cysylltiadau teuluol a chael trafodaeth bwysig am broblemau iechyd meddwl ymhliith yr ifanc a'r hen.

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae deiseb debyg a gobeithio y cynhelir dadl yn ei chylch yn Lloegr.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ogwr
- Gorllewin De Cymru

## Eitem 2.10

P-05-1100 Caniatáu i dafarndai a bwytaï yng Nghymru weini alcohol / aros ar agor ar ôl 6pm

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gwilym Owen, ar ôl casglu cyfanswm o 4,619 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Bydd y cyfngiadau a gyhoeddwyd gan Mark Drakeford ac sy'n dod i rym am 6pm, 4 Rhagfyr, yn gwahardd y diwydiant lletygarwch rhag gwerthu alcohol, ac yn eu gorfodi i gau am 6pm. Bydd y cyfngiadau hyn yn niweidiol i'r diwydiant lletygarwch ac mae angen ein cefnogaeth arnynt.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Nid yw lleoliadau'n gallu gweithredu i'w capaciti llawn ac, oherwydd hynny, mae busnesau'n mynd drwy gyfnod anodd iawn. Ond yr hyn sy'n gwneud pethau'n llawer gwaeth yn awr yw'r ffaith bod y Llywodraeth yn dweud nad yw lleoliadau'n cael gwerthu alcohol a bod yn rhaid iddynt gau am 6pm.

Bydd hyn yn niweidiol iawn i'r diwydiant. Mae llawer o'r rhain yn fusnesau teuluol sydd, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn dibynnu ar gyfnod prysuraf y flwyddyn, sy'n hanfodol i'w busnes a'u bywoliaeth.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

# Cyfngiadau coronafeirws ar y sector lletygarwch.

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14831-1

Rhif y ddeiseb: P-05-1099

Teitl y ddeiseb: Peidiwch â chau'r Sector Lletygarwch (Tafarndai, Bwytau, Caffis) heb ddangos tystiolaeth wyddonol.

Geiriad y ddeiseb: Mae sector lletygarwch Cymru wedi dangos ei fod yn gallu cydymffurfio'n effeithiol â'r rheoliadau COVID llym, gyda thafarndai, barrau, bwytau, caffis a llawer o leoliadau eraill yn dangos eu bod yn gallu cadw pellter cymdeithasol. Mae lletygarwch eisoes wedi addasu i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol a mesurau hylendid ychwanegol, yn ogystal â system profi ac olrhain y llywodraeth.

Mae tystiolaeth gan y llywodraeth a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai dim ond rhwng 1% a 3% o heintiadau coronafeirws newydd sy'n digwydd mewn tafarndai, barrau a bwytau. Oni bai bod llywodraeth Cymru yn fodlon cyhoeddi tystiolaeth sy'n dangos bod y risg o drosglwyddo yn uwch mewn lleoliadau lletygarwch, yna byddai'n annheg cosbi'r diwydiant unwaith eto drwy ei gau drwy gydol mis Rhagfyr.

Mae tafarndai, a'r diwydiant lletygarwch yn gyffredinol, ymhllith y rhai y mae'r cyfnod clo wedi effeithio arnynt fwyaf. Mae mwy na thraean o fusnesau lletygarwch yn dweud mai prin yw ei hyder, neu fod ganddynt ddim hyder o gwbl, y byddant yn goroesi'r tri mis nesaf, yn ôl data a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gynharach y mis hwn.

Mae'r flwyddyn hon wedi gadael y sector lletygarwch ar ymyl y dibyn, gyda llawer ohono ar gau drwy gydol 2020 yn sgil y pandemig. Mae masnach y



Nadolig yn hanfodol er mwyn i fusnesau aros ar agor, ac achub llawer rhag gorfod cau am byth oherwydd colli enillion.

**Rhif y ddeiseb:** P-05-1100

**Teitl y ddeiseb:** Caniatáu i dafarndai a bwytau yng Nghymru weini alcohol / aros ar agor ar ôl 6pm.

**Geiriad y ddeiseb:** Bydd y cyfyngiadau a gyhoeddwyd gan Mark Drakeford ac sy'n dod i rym am 6pm, 4 Rhagfyr, yn gwahardd y diwydiant lletygarwch rhag gwerthu alcohol, ac yn eu gorfodi i gau am 6pm. Bydd y cyfyngiadau hyn yn niweidiol i'r diwydiant lletygarwch ac mae angen ein cefnogaeth arnynt.

Nid yw lleoliadau'n gallu gweithredu i'w capasiti llawn ac, oherwydd hynny, mae busnesau'n mynd drwy gyfnod anodd iawn. Ond yr hyn sy'n gwneud pethau'n llawer gwaeth yn awr yw'r ffaith bod y Llywodraeth yn dweud nad yw lleoliadau'n cael gwerthu alcohol a bod yn rhaid iddynt gau am 6pm. Bydd hyn yn niweidiol iawn i'r diwydiant. Mae llawer o'r rhain yn fusnesau teuluol sydd, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn dibynnu ar gyfnod prysuraf y flwyddyn, sy'n hanfodol i'w busnes a'u bywoliaeth.

## 1. Cefndir

Ar 30 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, fod mesurau newydd yn cael eu cyflwyno "wrth i achosion o'r coronafeirws gyflymu yng Nghymru". Ers 4 Rhagfyr nid yw tafarndai, bariau, bwytau a chaffis wedi gallu gweini alcohol a bu'n ofynnol iddynt gau erbyn 6.00pm a dim ond darparu prydau parod ar ôl hynny.

Ar 1 Rhagfyr gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar gyfyngiadau mis Rhagfyr. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr "ymdreh enfawr a wnaed gan y sector [lletygarwch] i gydymffurfio â'r rheoliadau" ond "bu'n rhaid cyflwyno cyfyngiadau tebyg ym mhob rhan arall o'r Deyrnas Unedig ac, yn wir, ledled y byd." Dywedodd y Prif Weinidog:

Mae swyddogion iechyd a llunwyr polisi yn rhyngwladol wedi nodi bod yfed alcohol yn cynyddu'r risg o drosgwlyddo, gan y gall ymbellhau cymdeithasol chwalu gan fod canfyddiadau pobl o risg yn newid.

Peidiwch â chau'r Sector Lletygarwch (Tafarndai, Bwytau, Caffis) heb ddangos tystiolaeth wyddonol.

Mewn ymateb i ddatganiad y Prif Weinidog dywedodd Arweinydd yr Wrthblaid, Paul Davies AS, "ein bod mewn argyfwng iechyd cyhoeddus [...] ond rydym hefyd yng nghanol argyfwng economaidd". Mynegodd Paul Davies ei bryderon am ardaloedd yng Nghymru sydd â chyfraddau trosglwyddo isel ac ardaloedd "Ile nad oes tystiolaeth bod rhyngweithio yn y maes lletygarwch yn arwain at gynnydd mewn cyfraddau trosglwyddo".

Dywedodd y Prif Weinidog fod y dystiolaeth yno a chyfeiriodd at ddau bapur a gyhoeddwyd gan Grŵp Cyngori Gwyddonol Llywodraeth y DU ar Argyfngau (SAGE) ym mis Tachwedd sydd, meddai, yn adolygu'r mesurau sydd wedi llwyddo ar draws y Deyrnas Unedig. Cyfeirir at y papurau hyn isod.

## 2. Cyhoeddiadau gan grwpiau cyngori gwyddonol

Mae dau brif gorff sy'n darparu cyngor gwyddonol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

Un o gyrff cyngori Llywodraeth Cymru yw'r Gell Cyngor Technegol(TAC). Mae'n darparu "cyngor gwyddonol a thechnegol i gefnogi penderfynwyr Llywodraeth Cymru yn ystod argyfngau". Mae hyn yn cynnwys darparu diweddariadau rheolaidd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru i uwch swyddogion Llywodraeth Cymru am wybodaeth gan SAGE. Mae'r Gell yn cyhoeddi crynodebau rheolaidd o'r cyngor y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru ynghyd ag ymchwil pwnc mwy penodol.

SAGE ar ran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyngor gwyddonol amserol a chydgyssylltiedig ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gefnogi penderfyniadau traws-lywodraethol y DU". Mae'n dibynnu ar wyddoniaeth allanol a chyngor gan grwpiau arbenigol, gan gynnwys ei is-grwpiau ei hun megis y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig - Modelu (SPI-M) a'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar Ffliw Pandemig - Ymddygiadau (SPI-B)). Mae Cyhoeddiadau gan SAGE hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth y DU.

### 2.1. Papurau SAGE y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt

Ar 12 Tachwedd ystyriodd SAGE bapur gan ei is-grŵp modelu (SPI-M) ar haenau yn Lloegr a mesurau eraill yn y gwledydd datganoledig. Dyma un o'r papurau SAGE y cyfeiriodd y Prif Weinidog atynt yn y Cyfarfod Llawn.

Roedd yr ail bapur y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato yn dod gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Effaith Ymyriadau dyddiedig 19 Tachwedd ar y myriadau hydref y pedair gwlad. Cafodd y papur hwn ei ddiweddaru ar 26 Tachwedd.

## 2.2. Lleoliadau lletygarwch a throsglwyddo

Mae SAGE a'r Gell Cyngor Technegol wedi cyhoeddi papurau eraill sy'n cynnwys cyfeiriadau at y sector lletygarwch a throsglwyddo COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Tabl ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol (NPIs), 21 Medi 2020 (SAGE)
- SARS-COV-2: Llwybrau ac Amgylcheddau Trosglwyddo, 22 Hydref 2020 (SAGE)
- SAGE 63 munud: Ymateb Coronafeirws (COVID-19), 22 Hydref 2020
- Crynodeb o'r dystiolaeth ar gostau a manteision a mesurau lliniaru posibl ar gyfer mynd i'r afael â COVID-19 yng Nghymru, 25 Tachwedd 2020 (y Cell Cyngor Technegol)

## 3. Effaith COVID-19 ar y sector lletygarwch

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cynnal Arolwg o Effaith COVID-19 ar Fusnesau sy'n "cipio ymatebion busnesau ar sut yr effeithiwyd ar eu trosiant, prisiau'r gweithlu, masnach a gwydnwch busnes". Cyhoeddir yr ymatebion bob pythefnos.

Roedd y cyhoeddiad ar 19 Tachwedd 2020 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 19 Hydref a 1 Tachwedd 2020. Yn yr arolwg hwnnw dywedodd 27.8 y cant o'r diwydiant llety a gwasanaethau bwyd fod eu hyder y byddai eu busnes yn goroesi'r tri mis nesaf yn isel iawn.

Ers y cyhoeddiad gan y Prif Weinidog ar 30 Tachwedd, mae nifer o fusnesau lletygarwch wedi dweud y byddant yn cau o 4 Rhagfyr a mynegodd eu rhwystredigaeth gyda'r cyfyngiadau newydd.

Er bod UKHospitality wedi croesawu'r pecyn cymorth economaidd a gaiff ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, disgrifiodd y cyfyngiadau fel ergyd enfawr i lletygarwch yng Nghymru a theimlad bod y sector yn cario baich gweithredoedd y Llywodraeth yn annheg.

Peidiwch â chau'r Sector Lletygarwch (Tafarndai, Bwyta, Caffis) heb ddangos tystiolaeth wyddonol.

## 3.1. Cyfngiadau lletygarwch yng ngwledydd eraill y DU

### 3.1.a. Yr Alban

Ar 2 Tachwedd 2020 cyflwynodd Llywodraeth yr Alban Jefelau diogelu COVID.

Mae pob ardal yn yr Alban wedi'i dyrannu i un o'r pum lefel wahanol o ddiogelwch o lefel 0 hyd at yr uchaf ar lefel 4.

Gall bwyta, bariau, tafarndai a chaffis mewn ardaloedd lefel 3 agor o dan do ac yn yr awyr agored i fwyta ac yfed diodydd nad ydynt yn alcoholig. Ni ellir gweini diodydd alcoholig, a rhaid cau'r safle erbyn 6.00pm.

Mewn ardaloedd lefel 4, mae bwyta, bariau, tafarndai a chaffis ar gau a dim ond gwasanaethau prydau parod y gallant eu darparu. Mae yna un ar ddeg o ardaloedd yn yr Alban o dan gyfngiadau lefel 4 tan o leiaf 11 Rhagfyr 2020.

### 3.1.b. Gogledd Iwerddon

Rhwng 27 Tachwedd a 10 Rhagfyr 2020 mae gan Ogledd Iwerddon neges arios gartref ar waith. O ganlyniad, mae lleoliadau lletygarwch ar gau ar wahân i allu darparu prydau parod, danfon a gwasanaeth gyrru drwodd.

### 3.1.c. Lloegr

Ar 2 Rhagfyr 2020 disodlwyd y cyfngiadau cenedlaethol yn Lloegr gan system haenau. Mae pob ardal yn Lloegr mewn un o dair haen.

O dan haen 2, mae tafarndai a bariau ar gau oni bai eu bod yn gweithredu fel bwyty. Dim ond gyda "phrydau sylweddol" y gellir gweini alcohol a rhaid i safleoedd roi'r gorau i gymryd archebion ar ôl 10.00pm a chau erbyn 11.00pm.

Mae'r holl lleoliadau lletygarwch ar gau mewn ardaloedd haen 3 a dim ond gwasanaethau prydau parod, danfon neu yrru drwodd y gallant eu darparu. Mae pump ar hugain o ardaloedd yn Lloegr o dan haen 3.

## 4. Deddfwriaeth yng Nghymru

Rheoliadau Diogelu lechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("y rheoliadau") sy'n sail i'r cyfngiadau cenedlaethol presennol ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r rheoliadau drwy Reoliadau Diogelu lechyd (Cyfngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio).

(Cymru) 2020 i'w gwneud yn ofynnol i fariau, caffis, ffreuturau, bwytau a thafarndai fod ynghau rhwng 6.00pm a 6.00am ac atal gwerthu alcohol i'w yfed yn y lleoliadau hynny. Mae rhai eithriadau i'r cyfyngiadau ar amseroedd cau, gan gynnwys safleoedd mewn gweithleoedd, lleoliadau addysgol ac ysbytai er enghraifft.

Caiff y rheoliadau eu hadolygu gan Weinidogion Cymru erbyn dydd Iau 17 Rhagfyr, ac o leiaf unwaith bob tair wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cwestiynau cyffredin ar y rheoliadau.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddar na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

## P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tesni Morgan, ar ôl casglu cyfanswm o 1,462 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Ar 27 Awst 2020, lladdodd ein Bronwen annwyl ei hun ar ôl brwydr hir gyda'i hiechyd meddwl.

Rydym ni, fel teulu, wir yn credu y gallai hynny fod wedi cael ei atal. Yn ystod 6 mis olaf ei bywyd, dirywiodd iechyd meddwl Bronwen yn sylweddol.

Gwnaeth sawl ymdrech i ladd ei hun, gan roi ei hun mewn sefyllfaoedd peryglus yn rheolaidd. Roedd Bronwen mewn anobaith—nid oedd ei chynllun gofal yn addas at y diben ac roedd hi a'r teulu'n erfyn ar i rywbeth newid.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Gwnaethom ni, a Bronwen hithau, erfyn ar i rywun wrando arnom. Cawsom ein hanwybyddu.

Rydym yn ymdrechu am benderfyniadau ar y cyd ac adolygiadau rheolaidd o gynlluniau gofal a thriniaeth iechyd meddwl. Rydym hefyd yn galw am gyfle i'r berthynas agosaf gyfrannu i'r adolygiadau hynny. Mae canllawiau presennol NICE yn nodi bod penderfyniadau ar y cyd yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion y claf.

Mae NICE yn nodi bod penderfyniadau ar y cyd yn bwysig er mwyn:

trefnu bod dewisiadau gwahanol ar gael i'r claf ac i'r rhain gael eu trafod yn agored.

trefnu i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud ar y cyd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol a'r claf.

helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i addasu'r gofal neu'r driniaeth yn ôl anghenion yr unigolyn.

Nid felly y bu hi yn achos Bronwen. Mae penderfyniadau ar y cyd yn HANFODOL i gleifion gael y gofal gorau sydd wedi'i addasu yn ôl eu hanghenion unigol.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

# P-05-1045 Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14409-6

Rhif y ddeiseb: P-05-1045

Teitl y ddeiseb: Dylai penderfyniadau ar y cyd ac adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl misol fod yn ofyniad cyfreithiol.

Geiriad y ddeiseb: Ar 27 Awst 2020, lladdodd ein Bronwen annwyl ei hun ar ôl brwydr hir gyda'i hiechyd meddwl. Rydym ni, fel teulu, wir yn credu y gallai hynny fod wedi cael ei atal. Yn ystod 6 mis olaf ei bywyd, dirywiodd iechyd meddwl Bronwen yn sylweddol. Gwnaeth sawl ymdrech i ladd ei hun, gan roi ei hun mewn sefyllfaoedd peryglus yn rheolaidd. Roedd Bronwen mewn anobaith—nid oedd ei chynllun gofal yn addas at y diben ac roedd hi a'r teulu'n erfyn ar i rywbedd newid.

Gwnaethom ni, a Bronwen hithau, erfyn ar i rywun wrando arnom. Cawsom ein hanwybyddu.

Rydym yn ymdrechu am benderfyniadau ar y cyd ac adolygiadau rheolaidd o gynlluniau gofal a thriniaeth iechyd meddwl. Rydym hefyd yn galw am gyfle i'r berthynas agosaf gyfrannu i'r adolygiadau hynny. Mae canllawiau presennol NICE yn nodi bod penderfyniadau ar y cyd yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion y claf.

Mae NICE yn nodi bod penderfyniadau ar y cyd yn bwysig er mwyn:

- trefnu bod dewisiadau gwahanol ar gael i'r claf ac i'r rhain gael eu trafod yn agored.



- trefnu i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud ar y cyd gan y gweithiwr iechyd proffesiynol a'r claf.
- helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i addasu'r gofal neu'r driniaeth yn ôl anghenion yr unigolyn.

Nid felly y bu hi yn achos Bronwen. Mae penderfyniadau ar y cyd yn HANFODOL i gleifion gael y gofal gorau sydd wedi'i addasu yn ôl eu anghenion unigol.

## 1. Cefndir

### Cynllunio Gofal a Thriniaeth

Mae Rhan 2 o Fesur lechyd Meddwel (Cymru) 2010 yn rhoi'r hawl i bawb sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwel eilaidd gael Cynllun Gofal a Thriniaeth.

Caiff yr Egwyddorion Arweiniol eu nodi yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhannau 2 a 3. Mae chwech i gyd ac maent fel a ganlyn:

- Dylai cleifion a'u gofalwyr gael cyfrannu at gynllunio, datblygu a chyflawni gofal a thriniaeth cymaint â phosibl.
- Cydraddoldeb, urddas ac amrywiaeth
- Mae cyfathrebu clir o ran iaith a diwylliant yn hanfodol i sicrhau bod cleifion a gofalwyr perthnasol yn gallu cyfrannu mewn ffordd wirioneddol, a'u bod yn cael y gofal a'r driniaeth orau bosibl.
- Dylai gofal a thriniaeth fod yn gynhwysfawr a chyfannol, a chanolbwytio ar yr unigolyn
- Dylai'r gwaith o gynllunio gofal a thriniaeth fod yn gymesur â'r angen a'r risg
- Dylai gofal a thriniaeth gael eu hintegreiddio a'u cydgysylltu

Mae'r Cod Ymarfer yn datgan yn glir y dylai gweithwyr proffesiynol geisio cynnwys cleifion a'u gofalwyr mor llawn â phosibl yn eu gofal a'u triniaeth.

Mae dyletswydd ar y cyd ar Fyrddau lechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i weithredu Rhan 2 o Fesur lechyd Meddwel (Cymru) 2010. Mae'r Cod Ymarfer cysylltiedig yn nodi hawliau'r claf, gan gynnwys;

- **asesiad cyfannol** o'i anghenion iechyd a gofal cymdeithasol
- cytuno ar **gynllun gofal a thriniaeth ysgrifenedig** gyda phawb sy'n ymwneud â darparu gofal y claf
- **dyrannu Cydlynnydd Gofal** i fod yn brif gyswilt pwynt, ac yn gyfrifol am weithio gyda'r claf i gytuno ar gynllun gofal a thriniaeth
- **monitro ac adolygu** cynllun gofal a thriniaeth y claf. Mae gan y Cydlynnydd Gofal gyfrifoldeb parhaus am fonitro gweithrediad y cynllun, gan gynnwys asesu anghenion a risgiau iechyd meddwl y claf yn barhaus, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu fel y cytunwyd. Mae'n ddyletswydd i gynnal adolygiad ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. Dywed y Cod Ymarfer y dylai "adolygiadau fod yn seiliedig ar anghenion" ac y gall y claf, y gofalwr neu'r darparwr gwasanaeth ofyn amdanyst, yn ogystal â'r Cydlynnydd Gofal.

Mae gan **Hafal** gyhoeddiadau manwl ar Gynllunio Gofal a Thriniaeth.

**Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb** i lythyr y Pwyllgor.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-05-1045 To make shared-decision making and monthly mental health care-plan reviews a legal requirement, Correspondence – Petitioner to Committee, 06.12.20**

**P-05-1045 To make shared-decision making and monthly mental health care plan reviews a legal requirement**

**WHAT HAPPENED?**

We as a family are devastated by our loss and truly believe that it could have been prevented. Throughout Bronwen's years of struggling, we on many occasions came into contact with multiple different strands of Mental Health services across Cardiff and the Vale. During the last 6 months of her life, Bronwen's mental health deteriorated drastically. She was at rock bottom, making multiple attempts to take her life, putting herself and others in dangerous and risky situations on a regular basis. Bronwen was truly hopeless, her current care-plan was not fit for purpose and she and the family were begging for something to change. Urging the professionals that her treatment at that time was not working and we were scared for her safety on a regular basis. The police and her GP (*who came into contact with Bron regularly*) were in agreement that the current care-plan was not working and we requested (*begged*) for a change and this was ignored. Bronwen was left feeling completely hopeless, if her current treatment was not helping her and things were getting worse, yet no individual aspect of her care was changing - how was she ever going to feel better. Ultimately she payed the biggest price and decided that life was no longer worth living.

This can not go on. We as a family were **NOT** consulted when decisions were made regarding Bron's care - despite having written in her notes to consult the family and Bronwen's personal request to consult us. This never happened. Bronwen told the professionals that **SHE** is the expert of herself and the second experts are her family. Yet they did not want to hear anything from us, the people who spend 24 hours a day with her, caring for her. Surely we would be able to give valuable information about her current state of mind? This again was completely ignored and inevitably resulted in extended pain and trauma for Bronwen and the rest of the family.

**WHAT NEEDS TO CHANGE?**

We are striving for **shared decision making** and **regular reviews of Care and Support Plans**. The current NICE guidelines (*National Institute of Health and Care Excellence*) state that shared decision making is essential for appropriate care and in order to meet the needs of the patient. **Although these guidelines are brilliant and if followed would create an extremely more holistically rounded support system, they are indeed guidelines, which means they do not legally have to be followed. From our experience and many, many others – these guidelines are not being followed and we feel it is time for this to change. We are petitioning for these guidelines to be a legal requirement.**

NICE States that shared decision making is important for:

- *Care and treatment options to be fully explored, along with their risks and benefits.*
- *Different choices to be made available to the patient and are discussed openly.*
- *The ultimate decision to be reached together by the health professional and the patient.*
- *People to feel supported and empowered to make informed choices and reach a shared decision about care.*
- *To help Health and social care professionals to tailor the care or treatment to the needs of the individual.*

This in was NOT the case for Bronwen. She was told by professionals that the treatment she was having was not to be changed and when she requested extra support she was not given any options and was simply told no. This needs to stop. Shared decision making is ESSENTIAL for patients to receive the best care that is tailored to their individual needs.

### **THE SOLUTION.**

We are requesting for a review in the legal requirements of a care and support plan review in order for shared decision making to be at the forefront of all changes to care-plans.

We desperately wish for this particular issue to be put up for debate and discuss the below points, we wish for this to be attached to a legally signed document during care-plan reviews for all individuals involved in mental health services.

1. Have the person's circumstances and/or Care and Support needs changed?
2. What is working in the plan, what is not working, and what might need to change?
3. Are there any changes in the person's informal and community support networks which might impact negatively or positively on the plan?
4. Is the person, carer, independent advocate or other person involved satisfied with the plan?
5. With the individuals consent - are the family/guardians satisfied with the plan?

## Eitem 2.12

P-05-1056 Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Osian Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 5,386 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mewn nifer o ardaloedd gwledig a thwristaidd y mae cyfran helaeth o drigolion yn cael eu hamddifadu o gartrefi am fod prisiau tai wedi eu chwyddo gan y galw am ail gartrefi a thai gwyliau. Gallai'r Prif Weinidog gyfarwyddo Gweinidogion priodol i gychwyn trafodaethau ar frys gydag Awdurdodau Lleol i lunio strategaeth i sicrhau fod rheolaeth gan gymunedau ar y farchnad dai yn bennaf trwy ddiwygiadau yn y drefn gynllunio

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Arfon
- Gogledd Cymru

# Tai fforddiadwy

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14687-1

Rhif y ddeiseb: P-05-1056

Teitl y ddeiseb: Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru

Testun y ddeiseb: Mewn nifer o ardaloedd gwledig a thwristaidd y mae cyfran helaeth o drigolion yn cael eu hamddifadu o gartrefi am fod prisiau tai wedi eu chwyddo gan y galw am ail gartrefi a thai gwyliau. Gallai'r Prif Weinidog gyfarwyddo Gweinidogion priodol i gychwyn trafodaethau ar frys gydag Awdurdodau Lleol i lunio strategaeth i sicrhau fod rheolaeth gan gymunedau ar y farchnad dai yn bennaf trwy ddiwygiadau yn y drefn gynllunio.



## 1. Cefndir

Mae prinder tai ffoddiadwy yng Nghymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi ffoddiadwy newydd yn ystod tymor presennol y Senedd. Mae hyn yn cynnwys darparu tai cymdeithasol ar rent trwy gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, yn ogystal â chartrefi perchen-feddianwyr trwy gynllun **Cymorth i Brynu - Cymru**.

Mewn rhai ardaloedd gwledig ac arfordirol yng Nghymru mae nifer sylweddol o ail gartrefi ac eiddo'n cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau. Gall hyn gynyddu prisiau eiddo mewn cymunedau gan wneud cartrefi'n anfforddiadwy i drigolion lleol. Er bod cartrefi gwyliau ar osod yn cefnogi'r economi ymwelwyr yn benodol, mae pryderon am yr effaith hirdymor y gallent ei chael ar gymunedau, gan fod yn rhaid i bobl iau leol adael yr ardal lle cawsant eu magu er mwyn prynu neu rentu eu cartrefi eu hunain. Mewn rhai ardaloedd, mae pryderon penodol am yr effaith y gallai hyn ei chael ar y Gymraeg.

Mewn rhai cymunedau, defnyddiwyd y system gynllunio i osod amodau neu rwymedigaethau ar ddatblygiad newydd i alluogi mynediad i dai ffoddiadwy. Gallai hyn, er enghraifft, gyfyngu meddiannaeth eiddo i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni fyddai angen caniatâd cynllunio i newid annedd preswyl presennol yn ail gartref neu gartref gwyliau.

Amlwgwyd y materion hyn yn y Senedd ac amlinellir datblygiadau diweddar isod.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau yn y gyfraith trwy **Ddeddf Tai (Cymru) 2014** a roddodd y pŵer i awdurdodau lleol godi premiwm treth gyngor ar ail gartrefi. Mater i awdurdodau lleol unigol yw a ddylid codi premiwm. Gall y premiwm fod hyd at 100 y cant o gyfradd safonol y dreth gyngor. Bwriad y disgrifiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm yw bod yn offeryn i gynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai ffoddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol. Mae rhai llety gwyliau hunanarlwyo yn destun ardrethi annomestig, yn hytrach na'r dreth gyngor. Mae hyn wedi bod yn ddadleuol gan na fydd perchnogion cartrefi gwyliau wedyn yn destun premiwm y dreth gyngor ac efallai y gallant hefyd hawlio **rhyddhad ardrethi busnesau bach**.

Codir cyfradd uwch y Dreth Trafodiadau Tir arnoch pan fyddwch yn prynu eiddo preswyl, a'ch bod eisoes yn berchen ar un neu fwy o eiddo preswyl. Byddai hyn yn cynnwys prynu ail gartrefi neu gartrefi gwyliau.

Ysgrifennodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ar 27 Tachwedd 2020 a chadarnhaodd y bydd yn gwneud datganiad ar faterion yn ymwneud ag ail gartrefi ym mis Ionawr 2021.

Yn ei llythyr mae'n tynnu sylw at y ffaith y byddai angen deddfwriaeth newydd ar gyfer unrhyw newidiadau yn y system gynllunio. Mae'r Gweinidog yn nodi:

... awn ati i ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i gefnogi'r system gyfan. Er mwyn newid y system gynllunio, byddai'n rhaid creu deddfwriaeth sylfaenol. Ni ellir, ac ni ddylid disgwyl bod modd gwneud hyn ar frys'.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ar 23 Medi 2020, cynhaliwyd dadl dan arweiniad Plaid ar ail gartrefi yn y Senedd. Yn dilyn y dadl, galwodd y cynig y cytunwyd arno gan y Senedd ar Lywodraeth Cymru i:

... gynnal adolygiad trylwyr gyda thystiolaeth o berchnogaeth ail gartrefi yng Nghymru a'r mesurau a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau anghenion unigolion, cymunedau a'r economi, yn enwedig yr economi ymwelwyr. Dylai adolygiad o'r fath ystyried rôl trethiant, cynllunio, rheoleiddio lleol ynghyd â'r cyflenwad o dai fforddiadwy o bob math a mynediad atynt.

Ar 18 Tachwedd 2020, gofynnodd Sian Gwenllian i Julie James, AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol pa gynlluniau oedd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â mater ail gartrefi ledled Cymru. Dywedodd y Gweinidog:

Rydym yn mabwysiadu dull cyfannol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan roi ystyriaeth briodol i'r ystod eang o fuddiannau dan sylw. Ar draws y Llywodraeth, rydym yn parhau i adolygu'r holl dystiolaeth sydd ar gael. Mae cyd-Weinidogion, fy swyddogion a minnau wedi cyfarfod â nifer o Aelodau o'r Senedd, awdurdodau lleol ac academyddion i ddatblygu ein hymateb system gyfan i'r materion ymhellach.

Yn yr un cyfarfod, gofynnodd Adam Price AS i'r Gweinidog pa ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i sicrhau nad yw pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn cael eu prisio allan o'u marchnadoedd tai lleol? Aeth Mr Price ymlaen i ddweud:

Yn ddi-os, i adeiladu, wrth gwrs, ar yr ymatebion i'r cwestiwn blaenorol, mae'r cynnydd anferthol mewn ail gartrefi yn tanseilio unrhyw waith arall mae'r Llywodraeth yn ei wneud o ran sicrhau bod pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn gallu cael mynediad at dai. Mae'r hyn oedd yn broblem eisoes, ers degawdau, wedi troi nawr yn grisis anferth.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Gweinidog fod ei swyddogion yn edrych ar fater ail gartrefi, ond tynnodd sylw at y risg o ganlyniadau anfwriadol. Dywedodd y Gweinidog:

... rydym wedi bod yn edrych gyda diddordeb ar yr enghraift o gapio niferoedd, er enghraift, mewn ardaloedd eraill, ac mae rhai anfanteision difrifol iawn wedi codi o ganlyniad iddynt, yn enwedig os bydd dirwasgiad. Felly, rydym wedi gweld pobl leol wedi'u dal mewn ecwiti negyddol a phethau eraill o ganlyniad i gapiau o'r fath. Rwy'n edrych arno'n frwd iawn, i fod yn glir, ond rydym eisiau bod yn siŵr nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol..

Yn ddiweddar, mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd hefyd wedi ystyried deiseb a oedd yn galw ar Gynghorau Cymru i gymhwys o gordal o 100 y cant o leiaf i'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref JJ/02747/20

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau

27 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 20 Hydref, ynghylch Deiseb P-05-1056 – “Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli’r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru.”

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o’r heriau sy’n gallu codi yn sgil ail gartrefi mewn perthynas â chyflenwad tai fforddiadwy mewn rhai cymunedau yng Nghymru, ac rydym yn deall yr angen i sicrhau’r cydbwysedd iawn rhwng anghenion economaidd a chymdeithasol ein cymunedau, gan gynnwys creu’r amodau cywir i’r Gymraeg ffynnu.

Fel y dywedais ar 23 Medi mewn trafodaeth am gynnig gan un o’r gwrthbleidiau yn y Senedd, ac wedi hynny, mae yna nifer o faterion cymhleth, amlddimensiwn sy’n ymwneud ag ail gartrefi. Rydym yn llawn gydnabod y gwahanol bwyntiau sydd i’w hystyried, ac mae angen rhoi sylw i’r darlun cyflawn wrth fynd i’r afael â’r rhain. Wrth gydbwyso’r buddiannau amrywiol, byddwn yn edrych ar y dystiolaeth ac yn asesu effeithiau unrhyw newidiadau i’r system a gynigir gennym (gan osgoi canlyniadau nas bwriedir).

O ran y drefn gynllunio, gan fod y ddeiseb yn cyfeirio at hyn, awn ati i ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol i gefnogi’r system gyfan. Er mwyn newid y system gynllunio, byddai’n rhaid creu deddfwriaeth sylfaenol. Ni ellir ac ni ddylid disgwyl bod modd gwneud hyn ar frys, felly.

Yn hyn o beth, rwyf wedi’i gwneud yn glir nad oes gennym yr atebion i gyd. Ynghyd â’m cyd-Weinidogion, rwy’n gweithio ar draws Llywodraeth Cymru ac ag Aelodau o’r Senedd i ddatblygu a mireinio sut rydym yn ystyried y materion dan sylw, ac i lywio’r camau y byddwn yn eu cymryd. Rydym wedi cael trafodaethau adeiladol gyda Aelodau gwrthbleidiau’r Senedd, ac wedi gwahodd pobl i fynegi syniadau a sylwadau pellach ar y materion penodol hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, mae yna sawl naratif, ac rydym yn disgwl am i waith ymchwil Seimon Brooks ar ail gartrefi yng Nghymru gael ei ryddhau (ar ran Academi Hywel Teifi). Bydd hyn yn fuddiol er mwyn deall hyd a lled a graddfa'r cwestiynau hyn ac effeithiolrwydd ymyriadau a gyflwynwyd mewn gwledydd eraill.

O safbwyt Cymreig, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau sylweddol i helpu i sicrhau bod cartrefi yn fforddiadwy a bod yna gartrefi ar gael. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu tai fforddiadwy ledled Cymru, ac ar draws pob deiliadaeth wedi'i hen sefydlu. Er gwaethaf effaith y pandemig, byddwn yn cyrraedd ein targed ar gyfer 20,000 o gartrefi fforddiadwy erbyn diwedd y tymor Senedd hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod perchnogion ail gartrefi ac ymwelwyr yn gwneud cyfraniad teg i gymunedau, ac rydym eisoes wedi cymryd camau ymarferol i wneud i hynny ddigwydd.

Yn wahanol i weinyddiaethau eraill y DU, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu gostyngiad dros dro yn nhreth buddsoddwyr prynu i osod, buddsoddwyr mewn llefyd gwyliau wedi'i ddodrefnu na phrynwyr ail gartrefi. Nid yw ein gostyngiad dros dro ar Dreth Trafodiadau Tir mewn perthynas â thrafodiadau o dan £250,000 yn cynnwys ail gartrefi nac eiddo prynu i osod ac, o ganlyniad, mewn rhai achosion, mae'r ffi ychwanegol yn fwy na 3%. Adolygir yr holl gyfraddau yn rheolaidd.

Cymru, hefyd, yw'r unig wlad yn y DU lle gall awdurdodau lleol godi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag ers amser hir. Ar hyn o bryd, nid oes yr un awdurdod lleol yn codi premiwm o fwy na 50%. Mae ein swyddogion wedi cael trafodaethau adeiladol gydag awdurdodau lleol sydd â niferoedd uchel o ail gartrefi, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Mae'r cwestiynau sy'n ymwneud ag ail gartrefi yn bwysig i Lywodraeth Cymru, fel y maent i'n cymunedau. Byddaf yn parhau mewn cysylltiad â'm cyd-Weinidogion ac ag Aelodau o'r Senedd ar draws y pleidiau, ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad ym mis Ionawr.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

**P-05-1056 Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn  
ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor,  
06.12.20**

Rwyn cysylltu ar ran Osian Jones o Gymdeithas yr Iaith mewn ymateb i ebost at Osian gan Kayleigh Imperato (Subject: P-05-1056) a holodd am ein hymateb i lythyr gan y Gweinidog (atodiad 1) at gadeirydd y Pwyllgor ac yn ein holi a oedd y llythyr yn ymateb digonol i'n deiseb a ddenodd 5386 o enwau.

Hoffem hysbysu'r Pwyllgor ein bod yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ateb mor brydlon (o fewn 4 niwrnod i ddyddiad cau'r ddeiseb) ac i gadeirydd y Pwyllgor am sicrhau hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn fod y Gweinidog wedi ymateb yn llawn i ofynion y ddeiseb.

Tra bo llythyr y Gweinidog yn cydnabod fod problemau a materion i'w trafod o ran polisiau tai a chynllunio, a'u heffeithiau ehangach, nid yw geiriad yr ail baragraff yn awgrymu fod y Gweinidog yn deall natur brys yr argyfwng mewn llawer o'n cymunedau gwledig Cymraeg. Mae cyfeirio at "heriau sy'n gallu codi yn sgîl ail gartrefi" yn dangos diffyg ymwybyddiaeth â'r ymdeimlad o chwalfa cymunedol sydd gan lawer o drigolion yr ardaloedd hyn. Ac mae cyfeirio at "yr angen i sicrhau'r cytbwysedd iawn rhwng anghenion economaidd a chymdeithasol ein cymunedau" yn awgrymu fod gweithrediad afreolus y farchnad dai eleni yn yr ardaloedd hyn o fudd economaidd, ond gyda photensial i greu problemau cymdeithasol. I'r gwrthwyneb yn ôl llofnodwyr y ddeiseb. Mae'r chwalfa a achosir gan weithrediad y farchnad dai yn yr ardaloedd gwledig a thwristaidd eleni yn chwalfa cymdeithasol ac economaidd ac yn ddiwylliannol, ac yn gadael llawer o bobl ifainc â theimlad o anobaith am unrhyw ddyfodol yn y cymunedau lle cawsant eu magu.

Problem gronig yn yr ardaloedd hyn yw gweithrediad y farchnad dai agored. Achosir y broblem gan anghyfartaledd economaidd rhwng incwm cyffredin mwyafrif trigolion yr ardaloedd, ac incwm uwch rhai o du allan i'r ardaloedd sydd am brynu'r tai. Mae'r galw o du allan wedi ei chwyddo dros amser trwy weld tai'n fuddsoddiad masnachol, yn hytrach nag fel cartrefi - fel tai haf, fel ail gartrefi a chartrefi ymddeoliad. Dros amser, cynyddwyd y duedd trwy fod cyfran helaeth o'r farchnad wedi symud arlein a thrwy ddatblygiadau masnachol fel AirB&B. Dan reolaeth gymunedol, mae lle i bobl a mentrau lleol hybu twristiaeth o'r fath ac ennill atodiad incwm os na ddefnyddir cyfran peryglus o uchel o stoc tai i'r perwyl hwn.

Yr hyn sydd wedi creu'r argyfwng brys eleni mewn tuedd amser hir (nad oes unrhyw lywodraeth wedi ymdrin â hi'n ddigonol) yw argyfwng Covid-19 ac awydd i "ffoi i'r wlad". O ganlyniad, mae prisiau tai yn y cymunedau hyn wedi cynyddu'n aruthrol a

phobl leol yn methu fforddio prynu tai yn eu cymunedau. Yr enghraifft a roddir yn aml yw petref Abersoch yng Ngwynedd lle gosodwyd safon newydd yr haf hwn am brisiau anhygoel pan hysbysebwyd cyn-Dŷ Cyngor (gyda gwelliannau tu fewn) ar werth am £380,000 ! Gan fod cymaint o aneddleoedd y pentref yn dai gwyliau, ail gartrefi a thai i bobl wedi ymddeol, y mae ysgol y pentref yn awr dan fygythiad o'i chau gan yr awdurdod lleol o ddiffyg pobl ifainc yn y pentref. Erbyn hyn y mae tai mor ddrud yn Abersoch fel na all darpar-brynwyr o ddinasoedd Lloegr eu fforddio chwaith, ac mae'r broblem wedi ymledu i gymunedau cyfagos e.e. y mis diwethaf, derbyniodd trigolion pentref Mynytho lythyrau di-ofyn gan bobl yng ngogledd Lloegr yn ceisio eu perswadio i werthu eu tai. Mae'n wir argyfwng brys ar y cymunedau hyn ac ar bobl ifainc sydd am ddarganfod cartref tu fewn iddynt.

Mae trydydd paragraff llythyr y Gweinidog yn ymddangos fel ymarferiad "cut & paste" i'w gynnwys mewn unrhyw lythyr pan fo Gweinidog am osgoi neu oedi rhag gweithredu. Byddai o gymorth i'r Pwyllgor ddeall ein bod fel Cymdeithas, ac fel trefnwyr y ddeiseb, yn deall mai mater amlochrog a chymhleth fydd datrysiaid llawni'r sefyllfa ac y bydd angen newidiadau sylfaenol mewn polisiau tai, cynllunio, datblygu economaidd ac adfywio cymunedol. Deallwn hefyd fod gwahanol agweddu ar y broblem yn amlygu eu hunain mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn y bôn, deallwn y bydd angen Deddf Eiddo gyflawn ac amlochrog, ac ni ellid pasio deddfwriaeth o'r fath tan y tymor seneddol newydd wedi cyfnod teilwng o ddrafftio, ymgynghori a chraffu seneddol. Gobeithiwn y bydd y llywodraeth newydd yn gweithredu'n fuan ar ddechrau'r haf nesaf i neilltuo slot yn y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer hyn.

Ond nid ydym yn derbyn nad oes unrhyw gamau brys y gallai'r Llywodraeth bresennol eu cymryd yn ystod yr wythnosau nesaf i liniaru effaith yr argyfwng ar gymunedau sydd dan bwysau enfawr. Gofynnwn i'ch Pwyllgor alw ar y Gweinidog i drafod a gweithredu ar frys camau o'r fath. Mae modd diwygio deddfwriaeth bresennol ar frys, ac mae modd cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau newydd oddifewn i ddeddfwriaeth gyfredol lle rhoddir hawl i Weinidogion wneud hynny a/neu lle na rhywytrir Gweinidogion rhag gwneud hynny. Ar ben hynny, mae modd amrywio graddfeydd a dosbarthiadau trethiannol, a chynnig cymhellion ariannol i liniaru problem sy hefyd wedi'i gwaethygu gan argyfwng Covid. Mae felly ystod gweddol eang o gamau y gall Gweinidog a llywodreth eu cymryd i gwrdd â'r argyfwng os bydd yr ewyllys gwleidyddol i wneud hynny. Yn ymarferol, tri mis o amser sydd i wneud hyn cyn i no ddod at gyfnod cyn-etholiad. Mae'n fater o frys mawr felly.

Rhoddwn ychydig o enghreiffiau yn unig

1) Byddai cynyddu'r raddfa o Dreth Trafodiadau Tir ar dai a werthir fel ail gartrefi neu fel tai masnachol yn mynd rhan o'r ffordd tuag at leihau'r bwlch rhwng yr hyn y gall pobl leol fforddio ei gynnig am dŷ a phris uwch y gall darpar-brynwyr ail gartref

fforddio ei brynu. Gellid trafod gydag Awdurdodau Lleol y defnydd o'r arian ychwanegol i gynorthwyo pobl leol yn y farchnad dai. Fel arwydd fod posibiliadau gweithredu yn y maes, gofynwyd y cwestiwn i un o brif ymchwilwyr y Senedd a rhoddwn ei ateb yn yr ail atodiad ac isod

CWESTIWN - I understand that the Welsh Government can vary the Land transaction tax. Should they wish to do so, what is the process for doing this and the timescale?

ATEB – “Any changes to Land Transaction Tax (LTT) rates and thresholds are made by regulations, which would be subject to a provisional affirmative procedure. This would enable the Welsh Ministers to make regulations so that it has temporary legal effect as soon as these changes are made. Section 25 of the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act specifies that any regulations laid before the Senedd relating to any changes to tax rates or thresholds would cease to have effect after 28 days from the date the regulations are made unless it is approved by a resolution of the Senedd. If the regulations are not approved within that period then any tax paid at a higher rate may be refunded by Welsh Government.

However, Section 25 also notes the following:

In calculating any period of 28 days, no account is to be taken of any period during which the Senedd is:

- (a) dissolved, or
- (b) in recess for more than 4 days.”

Dywed llythyr y gweinidog ei hun yr "adiolygir yr holl gyfraddau (treth trafodiant tir) yn gyson", ac mae fely yn cydnabod y gakll weithredu yn y maes hwn.

(2) O ran diwygio ac atal y dull o osgoi talu premiwm ar Dreth Cyngor ar gyfer ail gartrefi trwy fod perchnogion yn cofrestru tai fel eiddo masnachol. Gellid diwygio'r lleiaf-gyfnod y flwyddyn am osod y tai er mwyn ei wneud yn anos i bawb ond achosion dilys gofrestru eu tai fel eiddo masnachol. O wneud hynny, byddai Awdurdodau Lleol yn gallu codi'r premiwm gyda mwy o hyder na byddent yn colli treth cyngor yn gyfangwbl ar y tai hyn, a gallai'r Llywodraeth roi hawl codi'r premiwn at lefel uwch yn yr ardaloedd lle bernir fod gormodedd o ail gartrefi'n bard. Cydnabyddwn fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau yn y maes - sy'n dangos fod cyfle gweithredu ymhellach ar frys mewn ymateb i'r argyfwng newydd eleni. Mae'r papur yn yn trydydd atodiad - gan Gymdeithas y Cyfrifwyr (AAT) yn berthnasol i hyn

(3) Mae nifer o Gynlluniau Datblygu Lleol yn y broses o gael eu cyflwyno i'r Llywodraeth yn ystod y misoedd nesaf, a bydd Sesiynau Cyhoeddus yn cael eu cynnal gan Archwiliwyr y Llywodraeth. Mae ofn cyson gan Awdurdodau Lleol na allant gynnwys ffactorau o bwys oherwydd y byddai Archwilydd y Llywodraeth yn dyfarnu nad ydynt yn berthnasol o ran diffiniad cul o ofynion y ddeddfwriaeth. Gallai'r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau diwygiedig i'w archwiliwyr i dderbyn tystiolaeth i'r holl amgylchiadau perthnasol.

(4) Gallai'r Llywodraeth hwyluso rhannu a gweithredu ar arfer gorau ymhliith Awdurdodau Lleol heb fod angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd e.e. cynllun Cyngor Sir Caerfyddin "Gosod Syml" lle gwahoddir perchnogion tai preifat i'w rhoi i'r Cyngor i'w gosod i deuluoedd lleol yn lle eu rhoi ar y farchnad agored.

(5) Mae gan bawb sy'n weithredol yn y maes syniadau pellach am gamau y gellid eu cymryd yn syth. A derbyn fod ambell gyfarfod trawsbleidiol, a thrafodaeth fewnol tu fewn i adran wedi digwydd, gallai'r Gweinidog godi proffil y drafodaeth trwy drefnu cyfarfod ffurfiolrhithiol gyda chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Penfro, Sir Gâr, Conwy, Powys, Dinbych ac Abertawe o wrando a thrafod pa gamau i'w cymryd ar frys, gan osod y sylfaen ar gyfer cynhadledd genedlaethol yn fuan yr hydref nesaf wrth i'r Llywodraeth newydd baratoi deddfwriaeth gynhwysfawr.

Wrth grynhoi, ailbwysleisiwn na ddisgwylawn i'r Llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth gynhwysfawr yn y tymor seneddol hwn. Ond, er mwyn y cymunedau sydd tan bwysau enfawr eleni ac er mwyn y bobl sy'n anobeithio rhag medru cael cartref oddifewn i'w cymunedau, credwn fod y Llywodraeth yn cymryd nifer o gamau yn syth. Cydnabyddir na byddant yn ateb cyflawn ynddynt eu hunain, ond byddant yn arwydd clir i'r farchnad fod Llywodraeth Cymru am ddatrys yr anghyfiawnder hwn, ac yn arwydd clir i deuluoedd mewn angen fod Llywodraeth Cymru o'u plaid.

Gofynnwn i chwi argymhell fod dadl fuan yn y Senedd ar y ddeiseb, a bod y Gweinidog yn ystyried ar frys - gyda Llywodraeth Leol - y camau y gall eu cymryd.

Yn gywir

## **15.12.20- Drafft o gynnig i fynd gerbron Cabinet Cyngor Sir Gwynedd**

**(i'w drafod yn gyntaf ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor)**

### **GWAITH YMCHWIL TAI GWYLIAU - Y PENDERFYNIAID A GEISIR**

Yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o'r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf, cymeradwyr y gwaith ymchwil (a baratowyd gan swyddogion y Cyngor) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac y dylid:-

- a) Galw ar y Llywodraeth ar fyrder i efelychu'r hyn sydd yn digwydd yn yr Alban a diwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) er mwyn cynnwys dosbarth defnydd ychwanegol ar gyfer llety gwyliau tymor byr. Byddai hynny yn ei dro yn caniatáu i awdurdodau adnabod 'ardaloedd rheoli' lle byddai'n ofynnol derbyn hawl cynllunio ar gyfer newid defnydd tŷ preswyl i'w ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr o fewn yr 'ardal rheoli' penodedig.
- b) Er mwyn cynorthwyo i gadw rheolaeth dylid hefyd galw am gyflwyno cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer llety gwyliau tymor byr fyddai'n gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol ei weithredu.
- c) Tra byddai'r uchod yn cynorthwyo'r Cyngor i gael gwell rheolaeth ar dai sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gwyliau, ni fyddai modd osgoi/rheoli tai yn cael eu troi yn ail gartrefi (oni bai am y rhai sydd yn cael eu gosod yn achlysuol/parhaol). Er mwyn sicrhau fod gan y Cyngor y modd ariannol i helpu i wneud yn iawn am y diffygion yn y cyflenwad y byddai hynny yn ei greu, ein bod yn galw ar y Llywodraeth i newid ei safiad ac i weithredu ar fyrder i newid y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol fel bod unrhyw dŷ annedd sydd ddim yn brif neu unig gartref i unigolyn (boed yn ail gartref neu'n dŷ a ddefnyddir at ddibenion llety gwyliau tymor byr) yn cael ei ddiffinio fel tŷ annedd er pwrrpas trethu (a thrwy hynny yn talu unrhyw bremiwm Treth Cyngor a benderfynir arno'n lleol). Fe fyddai unrhyw lety gwyliau tymor byr sydd wedi derbyn hawl cynllunio pwrrpasol ar gyfer y defnydd hynny yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer talu Treth Busnes Annomestig.

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Eitem 2.13

P-05-1064 Ymestyn y Dreth Trafodiadau Tir chwe mis arall ar ôl 31 Mawrth  
a chodi'r trothwy i £300,000

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gavin Powell, ar ôl casglu cyfanswm o 58  
lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Mae gwerthiant tai yn ddull a brofwyd o sicrhau sefydlogrwydd yn y  
marchnadoedd ariannol a byddai cynnydd o 6 mis ar yr hyn a nodir yn y  
canllawiau presennol yn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor. Hefyd, yn unol â  
Chynlluniau Cymorth i Brynu dylid cynyddu'r gwerth o'r trothwy presennol o  
£250,000 i drothwy o £300,000.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Tor-faen
- Dwyrain De Cymru

# Ymestyn Gwyliau Treth Trafodiadau Tir a Chynyddu'r Trothwy

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14687-3

Rhif y ddeiseb: P-05-1064

Teitl y ddeiseb: Ymestyn y Dreth Trafodiadau Tir chwe mis arall ar ôl 31 Mawrth a chodi'r trothwy i £300,000

Testun y ddeiseb: Mae gwerthiant tai yn ddull a brofwyd o sicrhau sefydlogrwydd yn y marchnadoedd ariannol a byddai cynnydd o 6 mis ar yr hyn a nodir yn y canllawiau presennol yn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor. Hefyd, yn unol â Chynlluniau Cymorth i Brynu dylid cynyddu'r gwerth o'r trothwy presennol o £250,000 i drothwy o £300,000.



## 1. Cefndir

Ym mis Ebrill 2018, cafodd Treth Dir y Dreth Stamp ei [datganoli i Gymru](#). Disodlwyd Treth Dir y Dreth Stamp â'r Dreth Trafodiadau Tir gan Lywodraeth Cymru, a hi sy'n gyfrifol am unrhyw newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru.

Mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn gymwys ar gyfer prynu eiddo yng Nghymru ac mae'n cynnwys cyfraddau a bandiau treth gwahanol i Dreth Dir y Dreth Stamp a delir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [gyfraddau a bandiau ei Threth Trafodiadau Tir ar gyfer 2020-21](#) yn ei chyllideb ddiweddaraf. Ym mis Chwefror 2020, cyn-COVID, [rhagwelwyd](#) y byddai elfen breswyl y Dreth Trafodiadau Tir yn codi gan £179 miliwn yn 2020-21, sydd [wedi'i ddiwygio i lawr](#) i £128 miliwn am nad oes cymaint o drafodion, ac yn sgil y gwyliau Treth Trafodiadau Tir. Roedd y gyllideb yn nodi'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer prynu eiddo preswyl fel y dangosir isod.

**Tabl 1. Cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir preswyl ar gyfer 2020-21**

Trothwy	Cyfradd TTT
£0 - £180,000	0%
£180,001 - £250,000	3.5%
£250,001 - £400,000	5%
£400,001 - £750,000	7.5%
£750,001 - £1.5m	10%
Dros £1.5m	12%

### Newidiadau i Dreth Dir y Dreth Stamp yn y DU

Ar 8 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Rishi Sunak, Canghellor y DU yn ei [Ddatganiad Haf](#) y byddai trafodion eiddo preswyl hyd at £500,000 yn cael eu heithrio o Dreth Dir y Dreth Stamp y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon tan 31 Mawrth 2021. Yn flaenorol, dim ond ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl hyd at £125,000 yr oedd yr eithriad hwn yn berthnasol a byddai'n arbed cymaint â £15,000 i brynwyr, pe baent yn prynu eiddo gwerth £500,000 neu fwy.

Mae landlordiaid a phrynwyr ail gartrefi hefyd yn gymwys am y toriad treth, ond bydd yn rhaid iddynt dalu'r 3 y cant ychwanegol mewn treth stamp a godwyd arnynt o dan y rheolau blaenorol.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru, fod Llywodraeth Cymru yn codi trothwy eithrio'r Dreth Trafodiadau Tir o £180,000 i £250,000 ar gyfer trafodion eiddo preswyl yng Nghymru tan 31 Mawrth 2021.

Mae'r tabl yn dangos cyfraddau dros dro newydd y dreth o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth Cymru.

**Tabl 2. Newidiadau i gyfraddau a bandiau preswyl y Dreth Trafodiadau Tir ar gyfer 2020-21**

Trothwy	Cyfradd TTT
£0 - £250,000	0%
£250,001 - £400,000	5%
£40,001 - £750,000	7.5%
£750,001 - £1.5m	10%
Dros £1.5m	12%

Dywedodd y Gweinidog y bydd y newid yn dod i rym ar 27 Gorffennaf i gyd-fynd ag ailagor y farchnad dai yng Nghymru yn llawn.

Mae'r rhagolygon tymor canolig ar gyfer y farchnad dai yn ansicr iawn, o ran prisiau tai ac o ran nifer y gwerthiannau. Bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad yr economi ehangach, a fydd yn ei dro yn cael ei benderfynu gan y ffordd mae'r pandemig a'r cyfyngiadau ar weithgareddau yn datblygu.

Cyn i'r newid i gyfraddau TTT gael ei gyhoeddi, roedd prisiau tai wedi dechrau gostwng, a disgwylid iddynt ostwng ymhellach, ond bydd y gostyngiad yn y Dreth Trafodiadau Tir bydd pob berson sy'n prynu tŷ gwerth £250,000 yn arbed £2,450. Bydd y swm hwn yn gwneud rhywfaint o iawn am ostyngiadau posibl mewn prisiau a chynnydd posibl yn y galw.

Dyweddodd y Gweinidog y bydd "y trothwy newydd yn golygu na thelir unrhyw dreth ar oddeutu 80 y cant o drafodion yng Nghymru lle mae'r prif gyfraddau preswyl yn gymwys".

## Trafodiadau cyfradd uwch

Yn wahanol i **Dreth Dir y Dreth Stamp**, ni fydd y newid i drothwy eithrio'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru yn gymwys i brynu eiddo ychwanegol, fel prynu i osod neu brynu ail gartrefi, ac mae'r trafodiadau hynny'n gorfol talu **treth ychwanegol, sef 3 y cant** ar ben y gyfradd bresennol ar gyfer eu gwerth a ddangosir yn Nhabl 1.

## Effeithiau newidiadau i'r Dreth Trafodiadau Tir

Yn ei llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau, nododd y Gweinidog, "bwriedir i'r newidiadau dros dro i'r dreth trafodiadau tir gael yr effaith gyffredinol o fod yn ysgogiad economaidd i gefnogi'r farchnad dai a'r economi ehangach yng Nghymru yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol".

Nododd y Gweinidog ymhellach:

Gostyngiad treth yw hwn sydd wedi'i dargedu at y rheini y gall fod arnynt angen rhagor o gymorth i brynu tŷ yn y cyfnod hwn - cyfnod na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Mae'r dull a fabwysiadwyd gennym yn sicrhau ein bod yn cadw cyfundrefn drethi flaengar sy'n disgwyl i'r rheini sydd â'r modd i wneud hynny gyfrannu mwy o ran treth.

O ran y trothwy o £ 250,000, cafwyd sylw gan y Gweinidog fod hyn wedi'i osod er mwyn adlewyrchu'r farchnad eiddo yng Nghymru. Fe nododd, "mae Mynegai Prisiau Tai diweddaraf y DU yn dangos mai £173,000 yw cost gyfartalog tŷ yng Nghymru ac mae prynwyr am y tro cyntaf yn talu £149,000 ar gyfartaedd. O ran ei werth, mae tŷ sy'n costio £300,000 yn agosáu at y 10% uchaf yng Nghymru".

**Nododd y Gweinidog hefyd** trwy beidio â dyblygu newidiadau Llywodraeth y DU i Dreth Dir y Dreth Stamp - y cafodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol ar eu cyfer o ganlyniad i'r addasiad grant bloc - eu bod wedi gallu buddsoddi cyllid i gefnogi'r sector tai cymdeithasol,:;

Drwy bennu'r cyfraddau hyn ar gyfer Cymru, rwyf hefyd yn gallu cadarnhau y bydd £30m ar gael i gefnogi'r gwaith o adeiladu cartrefi cymdeithasol newydd, a thrwy hynny greu swyddi y mae gwir angen amdanynt.

At hynny, yn ôl y Gweinidog bydd eiddo a brynir trwy gam nesaf y Cynllun Cymorth i Brynu – sydd i gychwyn ym mis Ebrill 2021 – yn gweld gostyngiad yng nghap pris y cynllun o £300,000 i £250,000.

### 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Er mwyn newid cyfraddau a throthwyon y Dreth Trafodiadau Tir, cafodd y Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Cyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 eu gwneud gan Lywodraeth Cymru ar 22 Gorffennaf 2020 a'u gosod gerbron y Senedd ar 24 Gorffennaf 2020. Gwnaeth y Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau ar 29 Medi 2020.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddar o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1064  
Ein cyf/Our ref RE/00825/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor  
Deisebau  
[Deisebau@senedd.cymru](mailto:Deisebau@senedd.cymru)

11 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch i chi am eich llythyr ynglŷn â'r ddeiseb i ymestyn y newidiadau dros dro i'r dreth trafodiadau tir am gyfnod o 6 mis arall y tu hwnt i 31 Mawrth 2021 ac i gynyddu'r trothwy dros dro i £300,000.

Rwy'n deall bod y Pwyllgor Deisebau wedi cytuno i ystyried y ddeiseb hon a diolch i chi am roi'r cyfle imi roi fy marn cyn i'r Pwyllgor ei hystyried.

Mae'r newidiadau dros dro i'r dreth trafodiadau tir yn golygu, o 27 Gorffennaf 2020 hyd 31 Mawrth 2021, bydd pob prynwr tŷ sy'n ddarostyngedig i brif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir ar eiddo sy'n costio mwy na £180,000 yn awr yn cael gostyngiad treth o hyd at £2,450 yn ystod y cyfnod y bydd y cyfraddau a'r trothwyon newydd mewn grym, ac ni fydd y rheini sy'n talu £250,000 neu lai yn talu unrhyw dreth. Felly, yn ystod y cyfnod hwn, mae'r atebolrwydd i dalu treth ar dŷ sy'n cael ei brynu am £300,000 yn cael ei haneru i bob pwrpas. O dan y trothwy 'arferol' ar gyfer talu treth, sef £180,000, ni dalwyd unrhyw dreth gan tua 60% o brynwyr tai sy'n ddarostyngedig i brif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir ar yr eiddo a brynwyr gan ddynt. Mae'r cynnydd dros dro i'r trothwy o £250,000 yn golygu bod cyfran y prynwyr tai nad ydynt yn talu unrhyw dreth yn cynyddu i 80%.

Ystyriwyd y trothwy dros dro o £250,000 yn ofalus, a chafodd ei bennu er mwyn adlewyrchu'r farchnad eiddo yng Nghymru. Mae Mynegai Prisiau Tai diweddaraf y DU yn dangos mai £173,000 yw cost gyfartalog tŷ yng Nghymru ac mae prynwyr am y tro cyntaf yn talu £149,000 ar gyfartaedd. O ran ei werth, mae tŷ sy'n costio £300,000 yn agosáu at y 10% uchaf yng Nghymru.

Mae newidiadau sydd i ddod i'r cynllun Cymorth i Brynu yng Nghymru hefyd yn ceisio sicrhau bod y farchnad eiddo yng Nghymru yn cael ei hadlewyrchu yn nhelerau'r cynllun. Ym mis Medi, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y bydd nifer o newidiadau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 154**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn cael eu gwneud i'r cynllun presennol yn y cam nesaf, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2021. Bydd y newidiadau hyn yn cynnwys lleihau, o £300k i £250k, y cap a osodir ar bris tŷ a brynir drwy gam nesaf y cynllun. Penderfynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol lleihau'r cap ar y pris ar sail y dystiolaeth ynghŷn â phris cyfartalog tai sy'n cael eu prynu drwy'r cynllun Cymorth i Brynu, y rhagolygon o ran prisiau tai yn y dyfodol, bandiau treth wrth brynu tŷ a'r angen i sicrhau bod tai yn fforddiadwy ac o fewn cyrraedd prynwyr.

Bwriedir i'r newidiadau dros dro i'r dreth trafodiadau tir gael yr effaith gyffredinol o fod yn ysgogiad economaidd i gefnogi'r farchnad dai a'r economi ehangach yng Nghymru yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol. Gostyngiad treth yw hwn sydd wedi'i dargedu at y rheini y gall fod arnynt angen rhagor o gymorth i brynu tŷ yn y cyfnod hwn – cyfnod na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Mae'r dull a fabwysiadwyd gennym yn sicrhau ein bod yn cadw cyfundrefn drethi flaengar sy'n disgwyl i'r rheini sydd â'r modd i wneud hynny gyfrannu mwy o ran treth.

Yn ogystal â hyn, wrth osgoi ailadrodd newidiadau Llywodraeth y DU i dreth dir y dreth stamp, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu £30 miliwn o gyllid ar gyfer hybu gwaith adeiladu yn y sector tai cymdeithasol, gan ddarparu mwy o dai yn y sector hwn, a chan roi hwb economaidd i'r sector adeiladu sydd mor bwysig a'r economi yn ehangach. Roedd modd darparu'r cyllid hwn diolch i fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, a'r ffordd y mae'r addasiadau i'r grant bloc yn gweithio, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn cael mwy o adnodd yn sgil y gostyngiad yn refeniw treth dir y dreth stamp. Pe bai trothwy dros dro y dreth trafodiadau tir wedi cael ei bennu yn uwch na £250,000, byddai'r cyllid ychwanegol hwn wedi bod yn llai.

Adolygir cyfraddau a throthwyon y dreth trafodiadau tir yn rheolaidd. Gan mai fel ysgogiad economaidd am amser penodedig yn unig y cynlluniwyd y cynnydd dros dro hwn yn nhrothwy'r dreth trafodiadau tir ar gyfer prynu tai sy'n ddarostyngedig i'r prif gyfraddau, nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ymestyn y cyfnod y tu hwnt i 31 Mawrth 2021.

Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi a'r Pwyllgor Deisebau.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

Dear Petitions Committee,

Thank you for providing me the opportunity to give further explanation of the original petition to extend the land transaction tax (LTT) break at least a further 6 months beyond 31<sup>st</sup> March 2021 and to increase temporary threshold to £300,000.

The main aim of the petition was to allow purchasers (both first time buyers and secondary buyers) who have seen delays in build times due to the COVID-19 pandemic the opportunity to gain access to an excellent scheme. The secondary aim was to also stimulate the economy in a positive manner. A stable and strong construction industry often ties itself with a strong and stable economy.

The rest of the UK devolved parties have considered extending the LTT (Devolved alternatives) to ensure that the economy can prosper on the back of the pandemic especially in light of the now announced vaccination programme.

There was clear evidence that the stimulus introduced by Welsh Government in part worked and it would be recommended that these stimulus are extended to aide the current crisis.

I am not using the help to buy scheme but are fully aware of how the valuations are based and appreciate that some areas of cutting would be needed to aide the cut in LTT. Second to this the banks have seen a large increase in borrowing not just from first time buyers but homebuyers moving up the property ladder (which is the case for myself) and the uncertainty that the banks once faced could no longer be a stumbling block for many like myself looking at new properties. If the extension is not granted then this could then be an antagonistic affect that could cause the banks to restrict lending and subsequently shrink the economy.

I would like to point to that the number of sales has been decreasing for the last two years and that a stimulus of this nature would ultimately help those numbers increase. This is down a number of factors with primary consideration given to the removal of the toll system on the Prince of Wales Bridge giving a surge in house purchasers from across into England. If there is no incentive then there will be further shrinkage of local economies.

The Welsh Government should consider the effect that the wider media has on the economy. Look at the effect "I'm a celebrity get me out of here" as potentially given North Wales. The airing of such a programme in this country and the perspective that Wales is actually a place to be and live will be supported by the scheme proposals given in the petition.

I believe Wales can be a front runner in doing this and show that we are open for business.

Kind Regards



Mr. Gavin R Powell BSc

## P-05-1069 Arbed y tir fferm a'r caeau gwyrdd yn Cosmeston

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Michael Philip Garland, ar ôl casglu cyfanswm o 5,272 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Weinidogion Cymru i lynn wrth eu polisiau amgylcheddol a newid hinsawdd ac at egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac annog Llywodraeth Cymru i dynnu'n ôl eu cynlluniau ar gyfer datblygiad o 576 o unedau tai ar y caeau a thir fferm arfordirol hardd yn Fferm Cosmeston Isaf, Cosmeston.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r caeau gwyrdd hyn yn gorwedd mewn ardal o arfordir a thirwedd ffermio rhwng Môr Hafren, Llwybr Arfordir Cymru a Pharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston (SDdGA), a bydd unrhyw ddatblygiad ar y caeau hyn yn effeithio'n fawr ar ecoleg a bioamrywiaeth bywyd gwylt lleol yma ac yn yr ardaloedd cyfagos, ynghyd â cholli amwynder cefn gwladd a threftadaeth hanesyddol ddiwylliannol leol yr ardal.

Bydd datblygiad mor fawr yn anghynaliadwy oherwydd y diffyg seilwaith priffyrdd ac iechyd lleol, a bydd yn gwaethygu tagfeydd traffig a llifogydd mewn ardaloedd cyfagos.

Dylid cadw'r tir ar gyfer ffermio a busnesau cysylltiedig a fydd, ynghyd â phrosiectau amwynder cymunedol lleol, yn cadw rhagolygon y dirwedd ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

# P-05-1069 Arbed y tir fferm a'r caeau gwyrdd yn Cosmeston

Y Pwyllgor Deisebau | 15 Rhagfyr 2020  
Petitions Committee | 15 December 2020

Cyfeirnod: RS20/14687-4

Rhif y ddeiseb: P-05-1069

Teitl y ddeiseb: Arbed y tir fferm a'r caeau gwyrdd yn Cosmeston

**Testun y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Weinidogion Cymru i lynu wrth eu polisiau amgylcheddol a newid hinsawdd ac at egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac annog Llywodraeth Cymru i dynnu'n ôl eu cynlluniau ar gyfer datblygiad o 576 o unedau tai ar y caeau a thir fferm arfordirol hardd yn Fferm Cosmeston Isaf, Cosmeston.

Mae'r caeau gwyrdd hyn yn gorwedd mewn ardal o arfordir a thirwedd ffermio rhwng Môr Hafren, Llwybr Arfordir Cymru a Pharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston (SDdGA), a bydd unrhyw ddatblygiad ar y caeau hyn yn effeithio'n fawr ar ecoleg a bioamrywiaeth bywyd gwylt lleol yma ac yn yr ardaloedd cyfagos, ynghyd â cholli amwynder cefn gwladd a threftadaeth hanesyddol ddiwylliannol leol yr ardal.

Bydd datblygiad mor fawr yn anghynaliadwy oherwydd y diffyg seilwaith priffyrrd ac iechyd lleol, a bydd yn gwaethygu tagfeydd traffig a llifogydd



mewn ardaloedd cyfagos. Dylid cadw'r tir ar gyfer ffermio a busnesau cysylltiedig a fydd, ynghyd â phrosiectau amwynder cymunedol lleol, yn cadw rhagolygon y dirwedd ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

## 1. Cefndir

Mae'r ddeiseb hon yn cyfeirio at **gais cynllunio amlinellol** a gyflwynwyd i awdurdod cynllunio lleol Bro Morgannwg gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cais cynllunio amlinellol hwn yn trafod datblygiad sy'n cynnwys eiddo preswyl, ysgol gynradd, gofod cymunedol ac ardal agored gyhoeddus.

Gwneir penderfyniadau ynghylch cynigion cynllunio yn unol â pholisiau cynllunio cenedlaethol a lleol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Yn yr achos hwn, mae'r datblygiad wedi'i leoli ar safle a ddyrannwyd ar gyfer tai yng **Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg**.

Mae nifer o ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cais, gan gynnwys datganiad amgylcheddol, wedi'u cyhoeddi ar **gofrestr gynllunio ar-lein Bro Morgannwg**.

### Ceisiadau cynllunio amlinellol

Mae'r ddeiseb yn cyfeirio at gais cynllunio amlinellol. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio yn geisiadau llawn, sy'n golygu eu bod yn cynnwys holl fanylion y cynnig perthnasol. Fodd bynnag, gellir hefyd wneud cais am ganiatâd cynllunio mewn dau gam.

Yn gyntaf, caiff cais cynllunio amlinellol ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu a yw'r egwyddor o ddatblygu'r safle dan sylw yn dderbyniol. Bydd yr ail gais yn gofyn am ganiatâd ar gyfer 'materion a gedwir yn ôl', a fydd yn cynnwys gweddill manylion y cynnig.

Hyd yn oed os rhoddir caniatâd amlinellol, mae'n rhaid i gais sy'n trafod y materion a gedwir yn ôl gael ei dderbyn cyn i unrhyw waith allu dechrau.

Yn yr achos hwn, mae'r cais amlinellol yn trafod mynediad i'r safle, gyda'r holl faterion eraill wedi'u cadw yn ôl.

## Ymgynghoriad cyn gwneud cais

Oherwydd bod y cais hwn yn trafod datblygiad 'mawr', bu'n destun ymgynghoriad cyn gwneud cais.

Mae'r gofyniad y bydd datblygwyr yn cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais wedi'i nodi yn Rhan 1A o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae'n berthnasol i bob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr, p'un ag ydyw ar gyfer caniatâd llawn neu ganiatâd amlinellol.

Caiff 'datblygiad mawr' ei ddiffinio yn erthygl 2 y Gorchymyn; mae'r cais hwn wedi'i nodi fel datblygiad mawr.

Cyn cyflwyno cais ar gyfer datblygiad mawr, mae'n rhaid i ddatblygwr gymryd y camau a ganlyn:

- cyhoeddi drafft o'r cais;
- ymgynghori â'r gymuned ac ymgyngoreion arbenigol; a
- llunio adroddiad ar yr ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn gwneud cais.

Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn gwneud cais ar gyfer y cais hwn wedi'i gyhoeddi ar gofrestr gynllunio ar-lein Cyngor Bro Morgannwg (linc uchod). Mae'r adroddiad yn dangos manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r gefnogaeth a'r gwrthwynebiad a gafwyd.

## Penderfyniadau cynllunio

Yn y pen draw, yr awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'i gynllun datblygu lleol.

Gall unrhyw un wneud sylwadau ar gais cynllunio. Ar adeg llunio'r papur briffio hwn, mae'r cais dan sylw ar agor ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac nid yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu arno eto.

Fodd bynnag, unwaith y gwneir penderfyniad, nid oes hawl gan drydydd parti i apelio. Yr ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol yw'r prif bartïon i apêl, a chaiff unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb eu nodi fel trydydd parti.

Dim ond drwy adolygiad barnwrol y gall trydydd parti herio penderfyniad. Dim ond ar sail un o'r tri maes eang a ganlyn y gellir gofyn am adolygiad barnwrol: anghyfreithlondeb; afresymoldeb; ac anghywirdeb gweithdrefnol – hynny yw, ar

bwynt cyfreithiol. Mae'n rhaid i gais at yr Uchel Lys am adolygiad barnwrol gael ei wneud o fewn chwe wythnos i'r penderfyniad, a gall fod yn broses ddrud.

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 23 Tachwedd, mae Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, yn pwysleisio'r gweithdrefnau y mae'r cais hwn yn amodol arnynt, fel y weithdrefn ymgynghori cyn gwneud cais a amlinellir uchod.

Mae'r Gweinidog yn pwysleisio bod y safle wedi'i ddyrannu yng nghyflun datblygu lleol yr awdurdod cynllunio lleol, sydd wedi bod drwy'r broses archwilio annibynnol a ddilynir wrth lunio cynllun datblygu lleol.

Hefyd, mae'r Gweinidog yn awgrymu y bydd y cynllun yn helpu i ddiwallu'r angen am dai a nodwyd yn yr ardal, gan ychwanegu y bydd y cynllun yn darparu nifer o unedau tai fforddiadwy. Cyhoeddodd yr awdurdod cynllunio lleol ei asesiad o'r farchnad dai leol yn 2017.

Dyweddodd y Gweinidog:

I do not consider the application should be withdrawn as to do so would result in the failure of the Welsh Government to deliver much needed affordable homes and would run counter to the strategy identified in the adopted Vale of Glamorgan Local Development Plan which sees this site as key to helping to address the identified housing need in the area.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r wybodaeth yn y papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael ei diweddar na'i diwygio i adlewyrchu unrhyw newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1069  
Ein cyf/Our ref RE/00867/20

**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Janet Finch-Saunders MS  
Chair, Petitions Committee

23 November 2020

Dear Janet,

Thank you for your letter to Ken Skates MS, Minister for Economy, Transport and North Wales, regarding the petition received in respect of the proposed planning application for the residential development of land at Lower Cosmeston Farm, Penarth. Your letter has been passed to me for reply as the proposed development falls within my portfolio of responsibilities.

The majority of the land which is subject to the planning application is allocated for the residential development of 576 units in the adopted Vale of Glamorgan Local Development Plan. The area of land to accommodate the proposed primary school is outside the boundary of the residential allocation although it is considered to be brownfield land as it is the site of the farm buildings which form part of Lower Cosmeston Farm. The residential allocation is a key part of the Council's strategy for the delivery of homes in accordance with the identified housing need for the area. The proposals contained in the Local Development Plan were subject to scrutiny by an independent planning inspector who was appointed to assess the soundness of the Plan, which was adopted in 2017.

The planning application for the residential development of the land was submitted to the Vale of Glamorgan Council on behalf of the Welsh Government on 30 September 2020. The application was supported by a significant amount of technical information and it is now for the Council to determine whether the information provided is adequate and addresses any concerns they may have. This includes issues relating to sustainability, infrastructure, highways, ecology, the environment and heritage. The supporting information also addressed the principles identified in the Well-being of Future Generations Act (the Act). The Vale of Glamorgan Council as defined in the Act as being a 'Public Body' will also need to take into account the provisions contained in the Act when making a decision on the planning application.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 162**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The Vale of Glamorgan Council is required to undertake a statutory period of publicity and consultation in respect of the application and the Council, as Local Planning Authority will need to take into account any representations received. It will also need to consider whether the application accords with policies contained in the adopted Local Development Plan before determining whether planning permission should be granted or not.

The proposals have also been subject to consultation by the Vale of Glamorgan Council as part of their preparation of the adopted Local Development Plan and prior to the planning application being submitted pre-application consultation was undertaken with the local community.

If planning permission is granted, the development of this site would be an exemplar housing site being brought forward by the Welsh Government which would deliver in the region of 280 affordable homes. A new primary school would be provided as well as public open space and a cycle route which would link the site to Penarth town Centre.

I do not consider the application should be withdrawn as to do so would result in the failure of the Welsh Government to deliver much needed affordable homes and would run counter to the strategy identified in the adopted Vale of Glamorgan Local Development Plan which sees this site as key to helping to address the identified housing need in the area.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read "Rebecca Evans".

**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd

**P-05-1069 Save the farmland and green fields at Cosmeston, Correspondence –  
Petitioner to Committee, 06.12.20**

**P-05-1069 Response to Petitions Committee Meeting: Tuesday 15<sup>th</sup> December  
by Michael Philip Garland on behalf of the Keep Cosmeston Green Group and the residents  
of Cosmeston, Penarth, Sully and surrounding areas.**

To: The Petitions Committee.

I would like to thank the Petitions Committee for allowing myself the chance to respond to the letter of Rebecca Evans MS, Minister of Finance, and respond regarding the Petition Statement.

**Response to the letter of Rebecca Evans MS Minister of Finance.**

This has been the general response that has been received on many previous occasions by residents from Welsh Government, i.e., the need for houses, and, that it is for the Vale of Glamorgan Council to determine the application.

**Response regarding the Petition Statement.**

The petition to “Save the farmland and green fields at Cosmeston” has received support not just from residents in the locality, but from across Wales and beyond who are concerned about the large amount of development in this area and the removal of our natural coastal farmland, being replaced by a large housing development and schools, with little or no infrastructure to sustain it.

The development being proposed by the Welsh Government appears contrary to many of the Welsh Government policies in regard to Environmental and Climate Change, (such as Environmental Strategy for Wales, Welsh Government Sustainable Policy, Environmental Growth Plan for Wales, Environment & Climate Change Planning and Strategy, Environmental Principles & Governance in Wales, Woodlands for Wales Strategy), and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Therefore, I would like to make the following observations in regard to the development application

**1. Procedural fairness.**

Residents feel that the submission of this planning application on 23<sup>rd</sup> October 2020, especially the same day that the 17 day “Firebreak Lockdown” was introduced, was a deliberate act. Neighbours letters only arrived 7 days after the consultation period begun. As a result of the restrictions There has been an inability to discuss the matter with the public or hold public meetings, to leaflet residents or to view the voluminous plans and reports, except on-line. Circumstances have made it very difficult for people to have a meaningful input in the planning process within the 21-day consultation period.

**2. The Vale of Glamorgan Council may have predetermined the application.**

Residents feel that the Council (VoGC) have pre-determined the application and therefore cannot assess this application objectively, since the Welsh Government are providing it with land to build a two-form entry primary school for 450 pupils. In addition, proposals have already been drawn up by VoGC to build a Special Educational Needs Annex for Ysgol Y Deri School to the south of this site, with a principled agreement already reached by both parties in regard to the cost of the school, with the Welsh Government providing £8.25m of the £11m cost, dependent on planning permission being obtained.

**3. The application does not conform with the adopted Vale of Glamorgan Council Local Development Plan 2017 (LDP).**

The application site is larger than the area allocated for that purpose in the Vale of Glamorgan Local Development Plan 2017 (LDP). The scale of the proposed development significantly exceeds the threshold of 150 dwellings or 6ha requiring a call-in by Welsh Government.

This extension of the proposed development encroaches even further into the Green Wedge identified in the LDP and will lead to “infilling”/ “rounding-off” by future housing development, thus further eroding the Green Wedge leading to coalescence with Sully, even more so if the site is further extended by the Ysgol Y Deri Annex. The extension at the south east corner of this ‘greenfield’ site involves the demolition of Lower Cosmeston Farmhouse and farm buildings which form part of an agricultural holding.

This is in direct conflict with Policy MG18, which seeks to prevent the coalescence of settlements and to retain the openness of land. The policy states that within these areas development which prejudices the open nature of the land will not be permitted. Clearly, 576 dwellings, including a number of high-rise blocks and a school conflicts with this policy.

**4. There is a lack of adequate transport/highway infrastructure.**

This, together with inadequate public transport services is already leading to significant traffic congestion and consequent air pollution in the locality, surrounding areas and along routes to Cardiff and the M4 Motorway. This unsatisfactory situation will only be exacerbated by this development taken together with the housing developments in Barry, Sully and Landau, which have not been taken into account in traffic assessments. The assessments are therefore misleading, under-estimating traffic volumes and failing to correctly assess the impact of the development on the Merrie Harrier and Baron's Court junctions despite a requirement by the local highways authority to do so.

While the site is close to a bus stop, a specialised restaurant and a private member's golf club, these services and facilities alone are not enough to make the development "sustainable". Many of the essential health services and facilities are further than the maximum permitted walking distance of 2km, which would be by way of the unlit Coastal Footpath and an unlit footpath/cycle track to Penarth. This, plus the use of inadequate public transport would result in more reliance on the motor vehicle for access to basic services.

The train service to Cardiff is unreliable with too few carriages or short notice cancellations.

Examples of actual travel distances to services and facilities

- Penarth Railway Station (2.5km),
- Penarth Town Centre (2.9km).
- Nursery Schools – St Aubin Nursery (2.1km), Bute Cottage Nursery (2.8km), Sully Nursery (3.2km), Cogan Nursery (4.1km).
- Secondary Schools – Stanwell School (2.6km), Westbourne School (2.6km).
- GP Surgeries – Penarth Health Partnership (2.5km), Sully Surgery (3km).
- Dentist Surgeries – Penarth Town Centre Area (2.7km).
- Mainstream Supermarkets are on the extreme northern boundary of Penarth (4.5km).
- Sully Library (2.3km) and Penarth Library (2.7km).

**5. The proposed development would have wide effects beyond the immediate locality.**

Residents of the Vale of Glamorgan who travel to the capital city by car or bus for employment, shopping or entertainment purposes are obliged to use one of three bridges across the Ely River. This is acknowledged by all responsible authorities as a major problem that does not have a solution at the present time.

